TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Gwella Lles yn Nhorfaen

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

**CYFLENWI EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 (CC3)**

## EIN GWELEDIGAETH I DORFAEN

**Torfaen: Lle diogel, ffyniannus, cynaliadwy lle mae pawb yn cael cyfle i fod y gorau medrent**

## GWERTHOEDD EIN CYNGOR

**Cefnogol**

**Teg**

**Effeithiol**

## CYNNWYS


**Tudalen**

**Rhagair ………………………………………………………………… 4**

**Part 1. Cyflwyniad ………………………………………………………………… 5**

**Part 2. Adrodd am ein Hamcanion Lles ………………………………… 7**

**Part 3. Cynnydd tuag at ein Hamcanion Lles newydd ar gyfer 2018/19 …. 19**

**Part 4. Arolygu a Dethol ein Hamcanion Lles …..……………… 29**

**Part 5. Meysydd Newid Corfforaethol ………………………………………… 43**

**Part 6. Cysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol Gyda'i Gilydd…………………… 46**

**Part 7. Adrodd ar ein Cynnydd ………………………………………………… 49**

**Atodiad 1 ………………………………………………………………………… 50**

**Ein Hamcan Lles a Gwella …………… Torfaen lân a gwyrdd**

**Atodiad 2 ………………………………………………………………………… 53**

**Ein Hamcan Lles a Gwella ……. codi cyrhaeddiad addysgol**

**Atodiad 3 ……………………………………………………………………….. 57**

**Ein Hamcan Lles a Gwella … cefnogaeth i drigolion mwyaf agored i niwed Torfaen**

**Manylion cyswllt ……………………………………………………………… 61**


Mae'r ddogfen hon yn ffurfio Datganiad Lles ac Adroddiad Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a baratowyd dan adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfarwyddyd cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae hefyd yn ffurfio Cynllun Gwella Blynyddol y Cyngor, a baratowyd dan ran un, adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chyfarwyddyd cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

# Rhagair

Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Torfaen, i weithio tuag at amcan cyffredin ar gyfer y sector cyhoeddus – i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth graidd y ddeddfwriaeth newydd mae'r egwyddor o gynaliadwyedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau ein bod yn diwallu anghenion trigolion heddiw heb beryglu rhai cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn arbennig o addas o ystyried y byd rydym yn byw ynddo heddiw, sy'n newid yn gyflym. Pan fyddwn yn cynllunio ein gwasanaethau, mae nifer o heriau i'w hystyried, megis effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, adnoddau naturiol yn lleihau a demograffeg newidiol ein poblogaeth. Serch hynny, mae cyfleoedd arwyddocaol hefyd megis datblygiadau mewn technoleg, a rhaid i ni fod ar y blaen yn hyn o beth er mwyn cael y manteision posibl mwyaf i'r awdurdod lleol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn gatalydd ar gyfer meddwl mwy am y tymor hir, edrych ar rwystro problemau a mabwysiadu dull mwy cysylltiedig. Rydym eisiau gweithio gyda chymunedau lleol i ddod yn fwy ymatebol i anghenion pobl. Rydym yn deall na fydd pobl bob amser yn cytuno gyda'n penderfyniadau, ond os ydym yn gwrando, ystyried y dystiolaeth briodol a gweithredu ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu, yna byddwn yn cymryd y camau iawn ar gyfer ein trigolion, eu teuluoedd a'r gwasanaethau maent yn dibynnu arnynt.

Mae'r rhagolygon ariannol yn y sector cyhoeddus yn parhau i gynnig heriau, ond mae'r heriau hyn yn dod ag ethos deddf LlCD i'r golwg yn fanylach. Gydag adnoddau'n dirywio drwy'r amser, mae angen i ni fod yn fwy effeithlon o ran sut rydym yn gweithio, gan ddyrannu'r hyn sydd gennym mor gynaliadwy ag y bo modd.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd rôl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yn dod yn bwysicach yn y broses wrth i'w Cynllun Lles a gyhoeddwyd ar gyfer Torfaen ddechrau gweithredu. Mae'r cynllun, a ddatblygwyd ar y cyd â'n partneriaid, yn nodi dyheadau hirdymor ar gyfer bwrdeistref Torfaen. Rhagwelir, trwy gronni adnoddau, y gellir goresgyn rhwystrau trefniadol, gan ganiatáu i ni weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i gyflenwi gwelliannau gwirioneddol ac arwyddocaol ar gyfer pobl Torfaen.

Rydym yn gyfundrefn agored a thryloyw, gyda diwylliant o ddysgu yn sail i ni. Wrth i ni addasu i gyflawni ein gofynion statudol, rydym yn hyderus y bydd yn cyflenwi Torfaen well i bawb. Lle nad yw pethau'n gwella fel rydym yn rhagweld, byddwn yn cwestiynu beth rydym yn ei wneud, ystyried a dysgu a byddwn yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd sy'n gwneud synnwyr i'r cyhoedd.

Mae'r dull newydd hwn o weithio yn cynrychioli cyfle cyffrous a her i ni a'n partneriaid gwasanaeth cyhoeddus. Mae ein trydydd Cynllun Corfforaethol, a gytunwyd yn 2016, yn darparu'r fframwaith ar gyfer y ddogfen hon, gan bennu ein hymrwymiad a'n cyfraniad i ddarparu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy ar gyfer pobl Torfaen, lle mae gan bawb y cyfle i fyw bywydau iach, annibynnol, pwy bynnag ydynt neu ble maent yn byw.










**Y Cynghorydd Anthony Hunt**
**Arweinydd y Cyngor**

**Alison Ward CBE**
**Prif Weithredwr**

# Rhan 1 - Cyflwyniad

Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghyfartaledd o ran iechyd, a swyddi a thwf. I ddelio gyda'r problemau hyn, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfwriaeth yn 2015 sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus ledled Cymru weithio gyda'i gilydd i roddi gwell ansawdd bywyd i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD 2015) yn rhoi dyletswydd ar holl gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy – y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud yn siŵr ein bod oll yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith o amcanion lles ar gyfer Cymru:




Fel corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, mae angen i ni ddangos sut rydym yn cyflenwi gweithgareddau sy'n cyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion lles hyn.

Mae datblygiad cynaliadwy yn gofyn i ni weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'n cynnwys **pum dull o weithio** y mae angen i ni nawr eu hystyried wrth gymryd penderfyniadau.

O hyn allan, rhaid i ni **…**

- ⇨ Ystyried yr **hirdymor** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion;
- ⇨ Mabwysiadu dull **integredig** er mwyn edrych ar yr holl nodau lles wrth benderfynu ar ein hamcanion lles ni;
- ⇨ **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio;
- ⇨ Gweithio ag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy a rennir, a
- ⇨ Deall y rhesymau tu ôl i'r problemau i'w **rhwystro** rhag digwydd.

# Ein Gofynion Statudol

Wrth ymgymryd â 'datblygiad cynaliadwy' yn unol â'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**, rhaid i ni **…**

- Bennu a chyhoeddi amcanion lles sy'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau lles;

- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ein hamcanion;

- Cyhoeddi datganiad am ein hamcanion lles sy'n esbonio pam rydym yn ystyried y bydd ein hamcanion lles yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau lles, a sut rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygiad cynaliadwy;

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cynnydd, a

- Chyhoeddi ein hymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

At hyn, mae angen i ni hefyd ystyried gofynion **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.** Mae hyn yn golygu bod angen i ni **…**

- Gyhoeddi cynllun gwella at y dyfodol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, yn nodi ein hamcanion gwella byrdymor ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, a
- Chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn amlygu ein cynnydd o gymharu â'r cynllun hwn cyn mis Hydref 2019.

**Felly …**

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno ein gofynion statudol ac yn cyflawni ein dyletswyddau cyhoeddi statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

# Rhan 2 – Adrodd ar ein Hamcanion Lles

**Dewis ein Hamcanion Lles**

Ym mis Ebrill 2016 bu i ni gytuno ein trydydd Cynllun Corfforaethol (CC3). Mae'n delio â chyfnod pum mlynedd hyd at fis Mawrth 2021 ac yn cynnwys tair blaenoriaeth, a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan ein cynghorwyr …

- ⇨ **Torfaen Lân a Gwyrdd**
- ⇨ **Codi Cyrhaeddiad Addysgol**
- ⇨ **Cymorth i Drigolion Mwyaf Agored i Niwed Torfaen**

Wrth bennu'r blaenoriaethau hyn, rydym hefyd wedi cytuno set o ddatganiadau ategol yn disgrifio'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflenwi i ddinasyddion; cynllun i gynorthwyo dinasyddion i gyflenwi; a'r hyn y disgwylir i drigolion ei wneud eu hunain i helpu gyda chynnydd yn y meysydd hyn.

Mae'r datganiadau hyn yn adlewyrchu ein derbyniad a'r ddealltwriaeth na fedrwn bob amser newid pethau ar ein pennau ein hunain. Mae'n esbonio'n glir ein bwriad i addasu sut rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol i greu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy ar gyfer Torfaen.

Credwn y bydd ein blaenoriaethau yn creu dyfodol tecach lle mae gan bawb gymunedau glanach a gwyrddach, lle mae pobl ifanc yn derbyn addysg o'r safon orau bosibl a lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach, annibynnol, pwy bynnag ydyn nhw neu ble maent yn byw.

Yn y flwyddyn gyntaf hon, ein dull oedd adnabod un prif brosiect ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol yn dangos sut byddwn yn gwella lles yn Nhorfaen.

## Ein Hamcanion Lles 2017/18

Cafodd ein blaenoriaethau lles ar gyfer 2017-18 eu dewis oherwydd eu bod yn linio'n glir gyda'n blaenoriaethau cyffredinol yn y cynllun corfforaethol;

| … Torfaen Lân a Gwyrdd | … Codi Cyrheaddiad Addysgol | … Cymorth i Drigolion Mwyaf Agored i Niwed Torfaen |
|---|---|---|
| **Amcan Lles –** Gwaith seiliedig ar ardal strydlun | **Amcan Lles –** Arolygu addysg ôl-16 yn Nhorfaen | **Amcan Lles –** Ail-ddylunio Gwasanaethau Oedolion |

Mae'r tudalennau canlynol yn arolygu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni ein hamcanion. Bydd pob prosiect yn cael ei weithredu dros nifer o flynyddoedd ond bydd yn cael ei arolygu drwy'r amser i sicrhau ein bod yn parhau i symud tuag at ein hamcanion.

At hyn, bydd pob prosiect yn parhau i ddatblygu, dros amser. Oherwydd hynny, ni fydd effeithiau llawn ein hamcanion lles yn cael eu gwireddu'n llawn am nifer o flynyddoedd.

## AMCAN LLES – GWAITH SEILIEDIG AR ARDAL STRYDLUN

– Ein prosiect i ddarparu gweithrediadau strydlun, seiliedig ar ardal, i gyflenwi gwasanaeth mwy effeithlon, gydag ymateb cyflymach i achosion o dipio anghyfreithlon.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Ar ôl arolwg cymheiriaid o'r Gwasanaethau Cymdogaeth, cymerwyd penderfyniad i fabwysiadu model seiliedig ar ardal o weithio o fewn y Strydlun. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, 'Torfaen lân a gwyrdd' i ni ddewis y prosiect ym mis Mwarth 2017 fel un o'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2017-18

**Cynnydd hyd yma …**

Mae ein gwasanaeth Strydlun seiliedig ar ardal wedi bod ar waith ers mis Hydref 2016. Ers mabwysiadu'r system newydd, mae ein staff wedi cyflawni gwelliant anferth o ran yr amser a gymerir i ymateb i dipio anghyfreithlon. Mae staff wedi eu grymuso i gymryd balchder yn eu hardal a phenderfynu pryd mae angen ymweld â rhai mannau lle mae problem yn amlach. Mae ein staff yn aml yn cymryd ffotograff o 'cyn' ac 'ar ôl' o ardaloedd lle mae problem er mwyn cadw cofnodion a rhannu'r wybodaeth gyda'r gymuned. Mae offer newydd wedi ei brynu sy'n addas i system seiliedig ar ardal ac fe'i dewiswyd gydag ymgynghoriad llawn â staff. Trwy gynnwys y staff rheng flaen yn y broses o gymryd penderfyniadau rydym wedi cael derbyniad ehangach o ran y system newydd.

Mae cyflwyno ein timau ymateb cyflym sy'n gweithio mewn patrwm shifftiau i weithio saith diwrnod yr wythnos wedi gwella'r ffigurau tipio anghyfreithlon yn fawr iawn a'r amser ymateb i broblemau a chwynion, gyda ffigwr perfformiad o 98.11% yn 2017/18 o gymharu â tharged o 96%.

Mae gennym dystiolaeth bod ein cyfraddau boddhad yn cynyddu, fel y dangosir yn y gwelliant yn ein dangosyddion perfformiad ni ein hunain. Serch hynny, er bod y dangosydd perfformiad boddhad wedi gwella, mae'n cael ei effeithio o hyd gan berchnogion tir eraill.


**Gweithio gyda phartneriaid**

Rydym wedi gweithio gyda Thai Cymunedol Bron Afon i ddatblygu dull cysylltiedig o ran amlder holl weithgareddau gan gynnwys torri gwair, trefniadau glanhau, cynnal a chadw gwelyau o brysgwydd, cynnal a chadw coed a thipio anghyfreithlon. Bydd hyn yn cynnig siop un stop ar gyfer ceisiadau am wasanaeth a chwynion gan y cyhoedd, a bydd yn arwain at well gwasanaeth yn gyffredinol i holl drigolion Torfaen.

Mae'r holl dir yn Nhorfaen yn cael ei archwilio'n annibynnol i gynhyrchu'r gyfradd foddhad, nid tir y Cyngor yn unig. Mae'n bwysg felly ein bod yn parhau i weithio gyda holl dirfeddianwyr yn yr ardal, er mwyn i drigolion Torfaen ddisgwyl lefel gyson o wasanaeth.

I gefnogi'r prosiect seiliedig ar ardal, rydym hefyd yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau eraill i helpu i wella'r amgylchedd lleol a chefnogi ein blaenoriaeth gorfforaethol Glân a Gwyrdd. Erbyn Mawrth 2019, byddwn wedi adolygu sut rydym yn gweithio gyda thirfeddianwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr, i weld ei effeithiolrwydd, a sut gellir ei wella i gynyddu capasiti. Bydd hyn yn arwain at dull cysylltiedig gyda phartneriaid ar gyfer gwella'r fwrdeistref sirol yn ei chyfanrwydd.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyrff eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i roddi'r cyngor a'r cymorth gofynnol y mae eu hangen arnynt i




ddatblygu ei ddull o ddelio â gwytnwch amgylcheddol. Bydd hyn yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r amgylchedd yn eu darparu ar gyfer lles yn ehangach (iechyd, addysg, datblygu economaidd, cysylltiadau diwylliannol). Yn gysylltiedig â hyn, rydym wedi ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu ar y potensial o gael pecyn digidol i gefnogi cydweithio ar draws y BGC, ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer Strategaeth Seilwaith Gwyrdd BGC i fwydo gwybodaeth i'r broses reolaeth dir weithredol .

**Gweithio gydag Aelodau Etholedig**

Mae ein system ardal newydd yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol gydag aelodau'r ward ar gyfer pob ardal. Dros y flwyddyn rydym wedi cael lefel uchel iawn o adborth positif gan aelodau'r ward a fynychodd y cyfarfodydd. Maent hefyd yn adrodd bod y system newydd yn well gan arwain at lai o gwynion gan drigolion.

Mae'r gweithio seiliedig ar ardal wedi bod yn llwyddiant ac yn cael effaith bendant ar ein cymunedau yn ôl adborth gan aelodau lleol. Mae hefyd wedi cefnogi cyflogaeth barhaol ar gyfer mwy na 60 o unigolion. Rydym wedi parhau i arolygu rôl y fforymau ardal seiliedig ar ardal gan ehangu eu cylch gorchwyl i gynnwys bioamrywiaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a gwastraff ac ailgylchu.

Mae'r cyfarfodydd yn helpu i sicrhau gweithio traws-dimau effeithiol (integredig) o fewn y Cyngor ac yn cynnwys pobl leol trwy hwyluso cyfathrebu rhyngddyn nhw a'r cyngor trwy eu haelodau yn y ward.

**Grymuso Cymunedau**

Ym mis Mawrth 2017, ymgymerwyd ag ymgyrch 'Glanhau y Gwanwyn' yn y fwrdeistref, a chyflogodd ein Tîm Strydlun 30 aelod staff ychwanegol i ymuno â'n timau rheng flaen i ddelio â sbwriel ar strydoedd, mannau siopa, parciau, ymylon ffyrdd, llwybrau beicio a mannau eraill anodd eu cyrraedd. Casglwyd 62 tunnell o sbwriel. Rydym yn gweithio'n agos gyda Cadw Cymru'n Daclus a nifer o grwpiau gwirfoddolwyr lleol fel rhan o'r ymgyrch hon a chymnerodd mwy na 250 o bobl ran yn y digwyddiadau, gan ein helpu i wneud Torfaen yn lle glanach a gwyrddach i fyw ynddo. Cafwyd ugain digwyddiad hel sbwriel ym Mlaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl, gan gasglu mwy na 300 sach o sbwriel a gweithio am fwy na 500 war. Yn ystod yr ymgyrch, gwelwyd yr

hashnod #GlanhauGwanwynTorfaen gan fwy na 40,000 o bobl.. Mynychodd Panel y Bobl Torfaen ddigwyddiadau, gan siarad gyda gwirfoddolwyr i ddeall sut medrwn gysylltu'n well gyda'r gymuned ar faterion glân a gwyrdd.

Roedd ein hymgyrch 'Glanhau Gwanwyn 2018' yn parhau gyda'r gwaith da. Trwy gyfrwng partneriaeth rhwng y Cyngor, Llywodraeth Cymru, Cadw Cymru'n Daclus, Cynghorau Cymuned ac amrywiaeth eang o grwpiau lleol a Grwpiau Cyfeillion, cofrestrodd 989 o bobl i fod yn rhan yn y digwyddiad yn 2018 a chymerodd 150 o wirfoddolwyr ran yn y digwyddiadau hel sbwriel, gan gasglu 400 sach o sbwriel.

Trwy gysylltu gyda grwpiau cymunedol, gweithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn gynaliadwy a rhoi cymorth iddynt gael cyllid, rydym yn grymuso pobl i arwain ar brosiectau sydd o fudd i'r gymuned leol. Mae enghreifftiau yn cynnwys gweithio gyda Chyfeillion Parc Panteg i adfer y parc a gwella hen adeilad ceidwaid y parc i greu hyb cymunedol lle gall pobl ddod at ei gilydd a mwynhau'r amgylchedd lleol.

Cafodd yr effaith gadarnhaol y mae gwirfoddolwyr yn ei chael ar y gymuned gyfan ei chydnabod yn gyhoeddus yng Ngwobrau Balchder Gwent 2017. Enillwyd Gwobr yr Amgylchedd gan Gyfeillion Parc Pont-y-pŵl am eu gwaith diflino i wella'r parc, ac enillodd un o drigolion Griffithstown, Ron Ford, y Wobr Arwr Lleol am ei weithgareddau hel sbwriel ledled Torfaen. Mae Cyfeillion Parc Pont-y-pŵl a Ron yn gweithio'n agos gyda ni i wella eu hardal leol ac addysgu eraill yn y pwysigrwydd o fod yn falch o'u hardal. Trwy gefnogi'r grŵp hwn, a llawer o rai eraill tebyg, rydym yn gobeithio creu rhwydwaith mwy a chryfach yn darparu effaith barhaol ar eu cymunedau a'u lles.

**Symleiddio ein Dulliau**

Mae Iechyd yr Amgylchedd wedi cysylltu gyda'r timau ymateb cyflym i gynyddu ymwybyddiaeth o'r broses o gasglu tystiolaeth am dipio anghyfreithlon ac mae hyn wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau i Iechyd yr Amgylchedd ac



rydym wedi cymryd camau mewn 41 o achosion lle mae tystiolaeth wedi ein galluogi i wneud hynny. Mae hyn yn gynnydd mewn atgyfeiriadau o 2.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ailstrwythuro ein gwasanaeth Amgylcheddol (Cefn Gwlad) a Strydlun wedi dwyn at ei gilydd wasanaethau i greu arbedion a dull mwy cysylltiedig. Mae'r trefniadau newydd wedi caniatáu i'r tîm greu dull ar y cyd o ran strategaeth goed (i'w chyhoeddi yn 2019-20), ac ystod gynhwysfawr o bolisïau ar gyfer rheoli coed, sy'n cymryd i ystyriaeth Ddeddf LlCD 2015 a Deddf yr Amgylchedd.

Mae bid i Lywodraeth Cymru am offer a deunyddiau i reoli tir yn well i gefnogi bioamrywiaeth wedi bod yn llwyddiannus a bydd yn gwella ein dulliau o reoli ein gwarchodfeydd natur lleol, glaswelltir ac ymylon blodau.

**Cyflwyno ffrydiau gwaith newydd**

Rydym yn y broses o ymgymryd ag arolwg o leoliad yr holl finiau sbwriel ledled y fwrdeistref gyda'r nod o rwystro cymaint o sbwriel yn cael ei daflu ag y bo modd. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein Timau Ymateb Cyflym yn cael eu grymuso i ymateb yn briodol ar y lefel leol a monitro effeithiolrwydd ein hamseroedd ymateb ar gyfer clirio sbwriel ar ein tir.

Bydd Cynllun Gwytnwch Bioamrywieath ac Ecosystemau yn ystyried ein polisi strategol a'n trefniadau gweithredol i sicrhau cydymffurfio gyda Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae syniad y cyhoedd a disgwyliadau o ran rheoli mannau gwyrdd weithiau yn gwrthdaro â'n dyletswyddau deddfwriaethol, yn enwedig o ran bioamrywiaeth. Rydym wedi datblygu, ac wedi cyflwyno i Lywodraeth Cymru, cais am gyllid i drefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd proffil uchel gan ddefnyddio clipiau fideo a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar reoli tir ar gyfer bioamrywiaeth.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghori ar reoli coed, coedlannau a gwrychoedd i gydymffurfio â dyletswyddau LlCD a Deddf yr Amgylchedd, gan ymgorffori polisïau clir ar gyfer rheoli coed.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n trigolion lleol ar sail ardal i reoli'r strydlun a'r mannau gwyrdd yn Nhorfaen. Rydym hefyd yn cychwyn ar arolwg o bolisïau, gweithdrefnau a strwythur timau, i sicrhau cydymffurfio yn y dyfodol gyda Deddf LlCD a dulliau o weithio.

Bydd ein cyfeiriad yn y dyfodol yn cynnwys:

- Datblygu strategaeth seilwaith gwyrdd sengl i gefnogi dull cyson o reoli tir ar draws cyfundrefnau partner ar y BGC, gan gymryd diwyllianau lleol i ystyriaeth.
- Ystyried trefniadau partneriaeth gyda busnesau preifat ac ysgolion uwchradd a allai leihau sbwriel a thipio anghyfreithlon.
- Cyhoeddi Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Corfforaethol ar ôl cyd-gynhyrchu gydag aelodau'r Cyngor a grwpiau rhanddeiliaid.
- Lansio ymgyrch proffil uchel yn y cyfryngau ar reoli tir ar gyfer bioamrywiaeth, cyrff bywyd gwyllt trydydd sector a grwpiau cymunedol lleol.
- Paratoi Strategaeth Adloniant Mannau Agored i gefnogi a datblygu ymhellach gyfleoedd ar gyfer bywyd egnïol yn Nhorfaen, a fydd yn ffurfio rhan o bolisi cynllunio at y dyfodol.
- Cyhoeddi Strategaeth Coed, Coedlannau a Gwrychoedd a dogfen Bolisi yn amlygu manteision lluosog coed.
- Peilotio dulliau rheoli glaswelltir amgen mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn effeithio adloniant, i wella bioamrywiaeth ac eco-gysylltedd.
- Creu, mewn partneriaeth ag Aelodau, cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid, Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i sicrhau bod pob agwedd o'r agenda Glân a Gwyrdd yn cael eu cynnwys o safbwynt strategol a gweithredol.

# AMCAN LLES – AROLYGU ADDYSG ÔL-16 YN NHORFAEN

- ein prosiect i gefnogi cyflenwi Canolfan Chweched Dosbrth newydd Saesneg ei chyfrwng yn Nhorfaen fel rhan o'n Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Cyflwynwyd Achos Amlinell Strategol (SOC) i Lywdoraeth Cymru ar gyfer y Chweched Dosbarth newydd i Dorfaen (a elwir bellach yn 'Barth Dysgu Torfaen') yng Nghwmbrân yn unol â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Roedd yr Achos Strategol ar gyfer newid yn cynnwys 4 blaenoriaeth:

- Gwella effeithiolrwydd a chanlyniadau gwasanaeth i bob dysgwr.
- Darparu economi ac arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth.
- Darparu cyfleoedd newydd a gwell i bob dysgwr.
- Gwella profiadau dysgwyr a deniadoldeb i bob dysgwr

Byddai ein cynnig yn disodli chweched dosbarth mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng a chreu canolfan chweched dosbarth newydd yng Nghwmbrân. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, 'gwella cyrhaeddiad addysgol' atom yn dewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyr yn ein Datganiad Lles 2017-18.

**Cynnydd hyd yma …**

Cymeradwywyd ein Hachos Busnes Terfynol ar gyfer y ganolfan chweched dosbarth newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2017, gan gadarnhau dyraniad o £10 miliwn tuag at y prosiect £20 miliwn. At hyn, ym mis Rhagfyr 2017, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gau'r tri dosbarth chweched dosbarth Saesneg eu cyfrwng.

Eisoes bu lefelau uchel o gydweithredu, integreiddio a chysylltiad gyda'r prosiect hwn. Hyd yma, mae hyn wedi canolbwyntio ar dîm y prosiect a'r gwaith ar botensial datblygu ehangach y safle gyda Llywodraeth Cymru. Cynhwyswyd mwy o randdeiliaid ar ôl penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr



2017 – y penderfyniad a roddodd y cynnig ar lwybr cadran. Cwblhawyd gwaith mynediad i'r safle ac adfer fwy neu lai ym mis Rhagfyr 2018. Cwblhawyd y polion ar gyfer sylfeini'r adeilad ym mis Tachwedd 2018, a dechreuodd gwaith ar y sylfeini ym mis Rhagfyr 2018.

**Cynaliadwyedd Dyluniad**

Roedd y broses ddylunio yn cynnwys gwaith arwyddocaol gyda Choleg Gwent ar y cyfleusterau roedd eu hangen yn y ganolfan newydd ac arolygon helaeth o'r safle a'r ardal o gwmpas. Mae dewis y safle a sut caiff ei ddatblygu yn cefnogi'r dyheadau am sir mwy cydnerth, iachach a mwy cyfartal. Mae hyn wedi cynnwys:

- Adeilad / dyluniad safle sy'n sympathetig i'r amgylchedd / ecoleg o gwmpas,
- Adeilad / dyluniad safle a fydd yn hyrwyddo lles staff a phobl ifanc ac sy'n hygyrch i bawb,
- Agos at y rhwydweithiau cludiant cyhoeddus ac agweddau dylunio a fydd yn hyrwyddo beicio a cherdded yn hytrach na dibynnu ar geir.

Cwblhawyd dyluniadau'r adeilad a'r safle ym mis Mai 2018, a bydd yn cyflawni Rhagorol BREEAM (sy'n mesur cynaliadwyedd y prosiect). Y disgwyliad yw y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio cyhyd â 50 o flynyddoedd felly mae'r dyluniad a'r deunyddiau wedi eu dewis yn unol â hynny, gyda ffocws ar gadernid a bytholrwydd.

Cafwyd cymeradaeth cynllunio ar gyfer y prosiect ym mis Awst 2018 a chadarnhawyd y dyluniad technoleg manwl ar gyfer yr adeilad newydd ym mis Medi 2018. Rydym wedi ymgynghori'n helaeth, gyda'r datblygwr a Choleg Gwent, a gyda staff y coleg i sicrhau bod y dyluniadau damcaniaethol yn cael eu profi gan yr ymarferwyr, y bydd rhai ohonynt yn cyflwyno cyrsiau o'r adeilad newydd. Roedd y broses yn cynnwys 'dysgu gwersi' gan gynnwys barn pobl ifanc, o Barth Dysgu Coleg Gwent ym Mlaenau Gwent. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd yr angen i sicrhau bod yr adeilad yn addas at y dyfodol oherwydd y posibilrwydd o newid cwricwlwm trwy gynnwys mannau y gellid eu haddasu.

Cytunwyd gwerth y contract 'peidio â mynd heibio' ar gyfer y cyfnod adeiladu ym mis Gorffennaf 2018. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad mwy yn y cyfleusterau newydd o £24.6m (gan gynnwys £1m a ddyrannwyd gan Goleg Gwent ar gyfer dodrefn ac offer yn yr adeilad newydd) yn bennaf oherwydd problemau ar y safle, lliniaru llifogydd ac adeilad o faint mwy.



Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer lliniaru llifogydd yn sicrhau na fydd yr adeilad, a'r safle lle mae, yn cael eu heffeithio gan dywydd gwael iawn, hyd yn oed yn yr hirdymor.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae tîm prosiect yn cynnwys staff y cyngor a Choleg Gwent wedi bod yn gweithio ar y prosiect yn y meysydd canlynol: ad-drefnu ysgolion; cyllid pontio; cytundeb partneriaeth; tir a phrydles, pontio cwricwlwm a disgyblion; cyllid refeniw; adnoddau dynol; cludiant dysgwyr; anghenion dysgu ychwanegol; ffitio gan y cleient a chyfathrebu.

Rydym yn gweithio gyda Choleg Gwent i oruchwylio'r prosiect a chytuno ar y cwricwlwm ym mis Hydref 2018. Bydd Coleg Gwent yn mynychu nosweithiau opsiynau ar gyfer dysgwyr a'u rhieni i helpu i ateb cwestiynau, a dechrau meithrin perthynas agosach gyda dysgwyr y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod gadawyr yn medru gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u haddysg a'u gyrfaoedd posibl yn y dyfodol, gan wybod bod llwybr clir o'r ysgol i addysg ôl-16 ac yna ymlaen i addysg uwch neu hyfforddiant os oes angen. Bydd ein cwricwlwm yn y cyfleusterau newydd yn ehangach nag unrhyw un ysgol yn y fwrdeistref sirol, bydd wedi ei integreiddio'n llawn gyda'r dewisiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud mewn ysgolion, ac o ganlyniad i economi graddfa, bydd yn fwy cynaliadwy yn wyneb newidiadau yn y dyfodol i gyllid ar gyfer addysg ôl-16.

Ynghyd â Choleg Gwent ac ysgolion uwchradd, rydym yn cyd-ddatblygu'r cynllun pontio i dywys gweithgareddau dros y cyfnod cyn i'r adeilad newydd agor ym mis Medi 2020. Mae hyn wedi ei seilio i ddechrau ar y profiad sylweddol sydd gan bob corff o reoli newid yn cynnwys pobl ifanc, ond bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2019 gyda dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

At hyn, rydym yn gweithio gyda Choleg Gwent a'r holl ysgolion uwchradd yn Nhorfaen ar y trefniadau cefnogi ar gyfer dysgwyr gydag anghenion ychwanegol, gan gydnabod bod y pontio i'r dysgwyr hyn yn arbennig o arwyddocaol ac yn cymryd mwy o amser.

**Datblygu Ffyniant**

Mae ein trefniadau contract gyda'r prif gontractwr, Interserve, yn dechrau cefnogi'r dyhead am Gymru mwy ffyniannus;

- Sut caiff yr adeilad ei adeiladu, a'r safle y bydd yn cael ei ddatblygu arno. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut gall datblygiad y safle a'r dyluniad gael effaith bositif ar newid yn yr hinsawdd a gwell defnydd o adnoddau naturiol.
- Cadwyni cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys camau i gadw cymaint o'n gwariant yng Nghymru ag y bo modd.
- Y manteision cymunedol a gaiff eu cyflawni o ganlyniad i'r prosiect hwn. Mae hyn yn cynnwys: gweithredu i wella manteision cymunedol megis defnyddio llafur lleol, creu swyddi, darparu hyfforddiant a phrentisiaethau.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Mae'r gwaith ar gyflawni'r ganolfan chweched dosbarth nawr yn mynd rhagddo'n dda gyda'r holl elfennau arwyddocaol - yr adeiladu, y cwricwlwm a'r trefniadau pontio ar waith. Rydym ar y trywydd iawn ac mae'r daith yn elwa'n fawr o barodrwydd ysgolion i chwarae rhan yn y broses, er gwaethaf y ffaith eu bod mewn rhai achosion yn gorfod ildio eu trefniadau chweched dosbarth eu hunain oherwydd y dull newydd.

Yn 2019 byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hyd yma, gyda llawer mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng Coleg Gwent a dysgwyr yn yr ysgolion i sicrhau pontio amserol a llyfn i'r trefniadau newydd.

## AMCAN LLES – AIL-DDYLUNIO GWASANAETHAU OEDOLION

– Ein prosiect i ddatblygu model newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn seiliedig ar dimau ardal, adnabod cydweithrediad effeithiol gydag awdurdodau eraill a modelau cyflenwi amgen gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Ymgymerwyd ag arolwg gwasanaeth llawn yn y Gwasanaethau Oedolion gyda'r gwaith cychwynnol yn helpu i ddatblygu gweledigaeth, i ddiffinio pwrpas newydd ar gyfer yr adran a dechrau ail-ddylunio'r gwasanaeth.

Penderfynwyd peilotio un tîm Lles ardal yng Ngogledd Torfaen, gan ddisodli ein system o gael ymatebion gwahanol ar gyfer pobl hŷn, pobl hŷn gyda iechyd meddwl, cleientiaid gydag anabledd corfforol, anghenion therapi galwedigaethol a chleientiaid a oedd mewn ysbyty.

Y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol 'cefnogi pobl sy'n agored i niwed' a'n harweiniodd i ddewis y prosiect ym mis Mawrth 2017 fel un o'r amcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2017-18.

**Cynnydd hyd yma ...**

Gan ddysgu o'n profiadau yng Ngogledd Torfaen, mae gwasanaethau oedolion wedi parhau gyda'r rhaglen drawsnewid – Dylunio i Gyflenwi (D2D). Ym mis Ionawr 2017, sefydlwyd pum tîm ardal. Yn arwain at y newidiadau, cafwyd trafodaethau gydag asiantaethau partner ac fe gafodd achosion agored eu mapio ar draws y Fwrdeistref Sirol (yn unol â Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, gyda dau dîm yn y gogledd a 3 yn y de). Ar ôl cyfres o weithdai a sesiynau ymgysylltu, pan



ymgynghorwyd â staff ar ba dîm fyddai orau ganddynt, cafodd cymysgedd sgiliau a phrofiad eu mapio yn unol â'r gymysgedd amrywiol o achosion er mwyn llunio'r timau newydd. Adborth gan staff ac arweinwyr a luniodd siâp y gwasanaeth a phennu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol – "Galluogwch i mi fyw fy mywyd yn y ffordd rwy'n dewis ei fyw."

Mae pob tîm yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, gweithwyr Gofal Cymunedol, Cynorthwywyd Ailalluogi a Chynorthwywyr Therapi Galwedigethol. Mae'r Tîm Anabledd Dysgu, Tîm Iechyd Meddwl Oedolion, Tîm Gwasanaethau Cymunedol a'r Tîm Cyfleoedd Dydd yn parhau i weithio ledled y fwrdeistref.

Bydd profiad cleientiaid, gofalwyr a staff yn parhau i bennu sut mae'r gwasanaeth yn datblygu. Mae cyfweliadau wyneb i wyneb gyda chleientiaid / gofalwyr wedi adnabod profiadau positif ac mae staff wedi adrodd gwell boddhad yn eu gwaith.

**Grymuso ein staff i gyflenwi'r newid**

Cafodd pob aelod o'r tîm dri diwrnod o hyfforddiant, yn eu cefnogi i wrando a deall 'beth sy'n bwysig' i bob unigolyn (*gweler y fideo hyfforddi – 'How to Operationalise the Design to Deliver Programme in Adult Social Care'*). Mae timau nawr yn gweithio gyda chleientiaid i adnabod eu canlyniadau personol, eu cryfderau ac atebion unigol sy'n eu galluogi i fyw eu bywyd yn y ffordd y maent eisiau ei fyw. Mae'r ffocws ar gydgynhyrchu, pobl sy'n arbenigwyr ar eu sefyllfa eu hunain a'u galluogi i ddefnyddio'r hierarchaeth o gymorth i hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a chymryd risgiau positif. Mae ein timau ardal wedi dechrau meithrin cysylltiadau cryfach gyda'r gymuned, gan gryfhau cysylltiadau gyda darparwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol.

Mae ymwreiddio ein dull newydd o weithio wedi bod yn ffocws allweddol i bob arweinydd a staff. Mae'r rhaglen drawsnewid D2D yn fwy na newid strwythur a lleoliad timau. Nid oedd newidiadau syml yn ddigonol i alluogi i'r adran fod yn addas at y dyfodol. Roedd ein rhaglen drawsnewid angen newid diwylliannol yn y ffordd o feddwl, a all gymryd amser i'w sefydlu.

Rydym wedi parhau i adnabod beth a weithiodd a beth sy'n rhwystro cynnydd. Mae arweinwyr ein timau ac uwch reolwyr yn parhau i gyfarfod pobl i adnabod atebion a rhannu arferion da rhwng y timau. Mae'r ffordd hon o weithio wedi datgloi rhai newidiadau syml, sy'n ein gwneud yn fwy effeithiol. Rydym wedi newid sut rydym yn cofnodi gwybodaeth, y dogfennau a gwblheir a'n prosesau ariannol. Rydym yn parhau i arolygu ein prosesau i weld lle nad ydynt yn ychwanegu gwerth a'u haddasu yn unol â hynny.

**Ffocws ar y cleient**

Gwelodd ein newidiadau ffiniau cleient yn diflannu. Yn ystod y treial, cafodd pob achos ymateb wyneb i wyneb o fewn 48 awr. Yr addysg allweddol o'r trafodaethau rhagarweiniol hyn oedd mai nid y mater a gyflwynwyd yn wreiddiol oedd y mater a oedd fwyaf angen ei drin. Mae llawer o'r gwaith wedi bod yn cefnogi gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall a chefnogi cymryd risgiau positif.

Y rôl yw bod yn 'ymyrrwr' yn hytrach na rheolwyr gofal, sy'n gofyn am wahanol sgiliau i hyrwyddo neu gadw hunan-ddibyniaeth y cleient yn hytrach na phrynu gwasanaethau wedi eu comisiynu. Yn ystod y peilot, arweiniodd hyn at ostyngiad mewn defnyddwyr gwasanaeth a oedd angen cymorth wedi ei gomisiynu yn y byr- neu'r hrdymor.

Yn ychwanegol, mae hyn yn cynnwys defnydd arloesol o dechnoleg i gefnogi cleientiaid i fod yn fwy annibynnol a rheoli eu bywydau eu hunain (*gweler fideo – 'Torfaen SMART Tech Pilot - Changing Lives').*

**Dull partneriaeth seiliedig ar gymuned**

Er mwyn bod wirioneddol yn seiliedig ar ardaloedd, rydym wedi symud ymlaen gyda'n hopsiynau llety. Mae Tîm Lles Gogledd Torfaen

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

supportive, fair, effective
cefnogol, teg, effeithiol

wedi symud i swyddfeydd yng Nghanolfan Iechyd Blaenafon a ddefnyddiwyd gynt gan y tîm nyrsio ardal er mwyn derbyn y niferoedd uwch, ac mae ein Tîm Lles Canol Cwmbrân wedi symud i Canalside. Mae'r ddau dîm olaf hefyd wedi symud i'w hardaloedd – lleolir Tîm Lles Dwyrain Cwmbrân nwar yn yr Highway yng Nghroesyceiliog ac mae Timau Lles Gorllewin Cwmbrân ym mhrif swyddfa Bron Afon yn Llantarnam. Mae ein cysylltiad gyda'r gymuned hefyd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r timau ardal. Mae staff wedi cysylltu gyda'r gymuned drwy fanwerthwyr lleol, eglwysi a grwpiau cymunedol i wella eu gwybodaeth a'r asedau cymunedol ac i feithrin perthnasau. Mae timau hefyd wedi bod yn bresennol yn nigwyddiadau cymunedol Torfaen – ffeiriau, sioeau ac ati i rannu gwybodaeth ar rolau'r timau.

Rydym wedi profi gweithio gyda darparwr gofal yn y cartref fel rhan o dîm Lles Gogledd Torfaen. Mae awgrymiadau cynnar wedi dangos bod hyn wedi cynhyrchu rhai canlyniadau positif i bobl gan adeiladu ar egwyddorion integreiddio, rhwystro a chydweithredu.

Mae hyrwyddo annibyniaeth a dulliau cydweithredol hefyd wrth graidd gweithio'n rhanbarthol. Ym mis Tachwedd 2018 lansiwyd y fenter Cartref yn Gyntaf. Mae hwn yn brosiect ar draws pump o ardaloedd awdurdodau lleol a BIPAB i roi asesiad cyflym a gofal yn Adrannau Argyfwng yr Ysbytai Cyffredinol Ardal lleol.

**Gwella perfformiad**

Gwelsom bod angen i'r sefyllfa lle mae oedi wrth drosglwyddo gofal (DToC) wella. Ers gweithredu ein Tîm Lles Gogledd Torfaen (NTWBT) roedd gostyngiad arwyddocaol mewn DToC yn yr ardal hon. Mae amser wedi ei fuddsoddi mewn sefydlu cysylltiadau cryfach gyda'r wardiau fel eu bod yn atgyfeirio i'r tîm yn hytrach na Thîm Gwaith Cymdeithasol yr ysbyty (yn ystod y cyfnod peilot). Mae hyn yn golygu mai'r un person a fyddai'n dilyn defnyddiwr gwasanaeth i'r ysbyty ac yn ôl allan.

Bydd DToC yn parhau i gael ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Gobeithir y bydd y duedd o ostwng DToC yn parhau, er bod problemau capasiti yn y farchnad gofal cartref allanol wedi cynyddu niferoedd,

ynghyd â'r cynnydd yn y galw 'pwysau'r gaeaf' ar welyau ysbyty.

Mae'r adran wedi defnyddio profiad cleientiaid, gofalwyr a staff i ddatblygu'r timau ardal. Mae cyfweliadau wyneb i wyneb gyda chleientiaid / gofalwyr wedi adnabod profiadau positif ac mae staff wedi adrodd am fwy o foddhad yn eu gwaith.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf byddwn yn datblygu ein dull, gan ganolbwyntio ein sylw ar:

- Weithredu'r strategaeth gofal cartref a fydd:
  - Yn ehangu ein gwasanaeth ailalluogi fel bod pob achos newydd yn mynd drwy raglen ailalluogi, a
  - Datblygu manyleb tendr ar gyfer cyflenwi gofal cartref seiliedig ar ardal
- Datblygu ein strategaeth gwelyau cymunedol yn seiliedig ar hybiau cymunedol
- Ailddylunio ein model cyfleoedd dydd, wedi ei lunio gan adborth defnyddwyr a gofalwyr
- Arolwg o'n mynediad defnyddwyr gwasanaeth / gofalwyr wrth y drws ffrynt
- Profi agwedd gyfannol ehangach tuag at les yng Ngogledd Torfaen

## Rhan 3 – Cynnydd tuag at ein Hamcanion Lles 2018/19

Ym mis Mawrth 2018, adnabuwyd tri phrosiect ychwanegol fel amcanion lles, yn gysylltiedig gyda'n Cynllun Corfforaethol presennol. Nodir amcanion lles ychwanegol y Cyngor ar gyfer 2018/19 isod.

### Ein Hamcanion Lles 2018/19

Roedd pob prosiect newydd yn dangos sut roeddem yn bwriadu gwella lles yn Nhorfaen o gymharu gyda'r 3 blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol. Ein hamcanion lles newydd ar gyfer 2018/19 yw:

**… Torfaen Lân a Gwyrdd**

**Well-Being Objective – Changing behaviours towards waste**

**… Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

**Well-Being Objective – Developing a well-being offer for all children**

**… Cefnogi Trigolion Mwyaf Agored i Niwed Torfaen**

**Well-Being Objective – Sustainable Domiciliary Care**

Roedd y rhain yn ychwanegol at ein 3 Amcan Lles presennol o 2017/18….

**Well-being Objective – Street scene area based working**

**Well-Being Objective – Reviewing post 16 education in Torfaen**

**Well-Being Objective – Redesign of Adult Services**

Mae'r tudalennau canlynol yn arolygu'r cynnydd hyd yma o ran cyflawni pob amcan newydd. Caiff pob prosiect ei weithredu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ond bydd yn cael ei arolygu'n gyson i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'r amcanion dymunol.

Rhoddir diweddariad mwy cynhwysfawr ym mis Mawrth 2020 pan fyddwn yn adrodd yn ffurfiol ar ein cynnydd o gymharu â'r Amcanion Lles hyn.

**AMCAN LLES – NEWID YMDDYGIAD TUAG AT WASTRAFF**
- ein prosiect i annog datblygiad cymdeithasol carbon isel, hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau, helpu i ddatblygu poblogaeth gyda'r sgiliau a'r addysg dda sy'n deall effaith amgylcheddol eu gwastraff.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Mae pob aelwyd yn Nhorfaen yn cynhyrchu gwastraff. Mae taflu'r gwastraff hwn i ffwrdd yn defnyddio adnoddau gwerthfawr ond mae hefyd yn medru achosi niwed byrdymor a hirdymor i'r amgylchedd.


Mae annog newidiadau cynaliadwy yn ymddygiad ein trigolion ac ymwreiddio arferion lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu yn hytrach na gwaredu yn sicrhau amddiffyniad yr amgylchedd yn yr hirdymor.

Yn ystod 2018/19 penderfynodd y cyngor ymgymryd â nifer o weithgareddau gyda'r nod o gefnogi newid agweddau tuag at wastraff yn Nhorfaen. Arweiniodd y cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol 'Torfaen lân a gwyrdd' atom yn dewis y prosiect ym mis Mawrth 2018 fel un i'n hamcanion lles cyntaf a gyhoeddwyd yn ein Datganiad Lles 2018-19

**Cynnydd hyd yma …**

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd mewn nifer o feysydd o ran cefnogi pobl i newid eu hagwedd tuag at wastraff.

Gan gydweithio gyda'r Rhaglen Weithredu ar Wastraff ac Adnoddau (WRAP), rydym wedi cwblhau strategaeth ddrafft ar gyfer darparu gwasanaeth. Nid yw'r Strategaeth yn canolbwyntio ar dargedau'n unig, ond hefyd ar ymgysylltu a chydweithredu gyda phob rhanddeiliad.



**Cefnogi ein staff**

Mae ein gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar hyn o bryd yn dibynnu ar staff asiantaeth i ddarparu'r swyddogaeth. Mae'r model hwn yn cael ei newid fel bod mwy o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol, gan roddi mwy o berchnogaeth i'r staff, a hefyd yn caniatáu mwy o gyfleoedd hyfforddi. Mae recriwtio staff wedi dechrau, gyda'r cyfnod cyntaf yn canolbwyntio ar yrwyr. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn yn dechrau recriwtio llwythwyr. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd ar ôl cydweithrediad ac ymgysylltiad Aelodau a staff y Cyngor. Ar wahân i'r newid hwn, rydym wedi parhau ein gwaith gyda'r criwiau mewn perthynas â pherfformiad drwy gyfrwng sgyrsiau pecynnau gwaith, ac rydym wedi parhau gydag ymarferion 'siopwyr dirgel' i fonitro perfformiad pan adnabyddir problemau penodol.

Rydym wedi cysylltu gyda Hyfforddiant Torfaen i ddatblygu rhaglen hyfforddi benodol ar gyfer gyrwyr gwastraff er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'u rôl fel arweinydd tîm i griwiau sy'n casglu'r gwastraff. Y bwriad gyda hyn, ynghyd â gweithlu mwy sefydlog, yw canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gynorthwyo gyda chynyddu ailgylchu.


**Gweithio gyda'n trigolion**

Rydym wedi parhau i annog defnyddio rhwydi ar y blychau ailgylchu du i gynnwys gwastraff trigolion. Yn ychwanegol at hyrwyddo'r negesuon hyn, mae'r tîm wedi rhoi rhwydi ar flychau sydd eisoes yn Nhorfaen, gyda bron i 2,500 o aelwydydd. Adnabyddir yr ardaloedd ymyrryd mewn cydweithrediad â'r criwiau, trigolion, Aelodau a chydweithwyr ym Mron Afon. Bydd defnyddio rhwydi ar y blychau yn lleihau effaith a phroblemau sbwriel yn chwythu yn y gwynt, gan gyfrannu at flaenoriaeth Glân a Gwyrdd Torfaen.

Rydym wedi parhau i gyflwyno ymyraethau addysgol yn ein hysgolion, ac rydym yn ystyried cyfleoedd i gynnwys ailgylchu a gwastraff yng nghwricwlwm yr ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at welliannau hirdymor yn y maes hwn.

Ar ôl cyfres o gyfathrebiadau, i wneud trigolion yn ymwybodol o'r newid, o'r 4ydd Mawrth 2019 byddwn yn dechrau agor sachau duon yn y






Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Tŷ (HWRC) i rwystro deunydd gwerthfawr y gellir ei ailgylchu rhag mynd i gael ei waredu.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Rydym wedi bod yn bartner yn ymgyrch newid ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ailgylchu bwyd, sy'n un o'r meysydd lle mae ein perfformiad isaf, ac ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw rydym yn gobeithio adnabod y rhwystrau gwirioneddol i drigolion o ran cymryd rhan mewn ailgylchu bwyd. Rydym hefyd wedi gwneud 29 o gyflwyniadau cymunedol a dyddiau gweithredu cymunedol, gan weithio gyda Bron Afon a grwpiau cymunedol yn amrywio o grwpiau babanod i fforymau pobl hŷn. Mae'r gwaith cydweithredol hwn yn ceisio newid ymddygiad gan drigolion er mwyn cael budd hirdymor.

Yn gysylltiedig â'r agweddau hyn, rydym hefyd wedi:

- Cwblhau'r broses gaffael ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwyrdd trwy gontractau rhanbarthol cydweithredol sydd wedi sicrhau ailgylchu fforddiadwy ac amgylcheddol fuddiol y gwastraff hwn.
- Parhau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol,
- Ymgymryd â 7 miliwn o gasgliadau y flwyddyn,
- Trosglwyddo staff a gweithrediadau o gontractwr allanol i ddarpariaeth fewnol
- Sicrhau grant allanol ychwanegol a gosod offer newydd ar gyfer gwella'r ddarpariaeth honno.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Mae'r flwyddyn nesaf yn hollbwysig, gyda chynnydd yn angenrheidiol mewn cyfraddau ailgylchu hyd at 64%. Trwy'r newidiadau HWRC a amlinellir uchod, a thrwy arolygiadau trylwyr o ganolfannau ailgylchu, yn enwedig ar gyfer pren, rydym yn optimistig y bydd 64% yn cael ei gyflawni.

Bydd 2019-20 yn gweld mabwysiadu strategaeth wastraff ac ailgylchu newydd a fydd ei hangen i lywio gwaith y tîm. Yn bwysig, bydd 2019-20 hefyd yn gweld cychwyn rhai arolygiadau mawr a fydd yn bwydo gwybodaeth i'r broses o lunio'r gwasanaeth ailgylchu ar ôl 2021, gan gynnwys dyluniad y gwasanaeth, llwybrau, dyddiau casglu i drigolion a dyluniad a chaffaeliad cerbydau/blychau. Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol ac yn adweithiol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r targedau ailgylchu statudol fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru, ond byddwn hefyd yn ceisio cysylltu â thrigolion fel rydym wedi ei wneud wrth ddatblygu ein Strategaeth Wastraff ddrafft.

Bydd Ailgylchu a Gwastraff yn parhau i fod yn faes heriol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth, gan fod pethau'n newid drwy'r amser. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phob rhanddeiliad i geisio cael gwelliannau parhaus.

## AMCAN LLES – DATBLYGU CYNNIG LLES I HOLL BLANT A PHOBL IFANC

– Ein prosiect i adnabod gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ôl ystod oedran, gan sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth am yr amrywiaeth sydd ar gael i hybu iechyd a lles.

### Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn

Mae lles plant a phobl ifanc yn hollbwysig, nid yn unig o ran sicrhau eu hiechyd corfforol a meddyliol ond oherwydd bod plant yn llai tebygol o fedru dysgu a chyflawni eu potensial yn yr ysgol hebddo.

### Cynnydd hyd yma

Yn ysatod 2018/19 cwblhawyd ymarfer i fapio cynnig lles presennol Torfaen i blant a phobl ifanc. Cychwynnwyd gyda gwasanaethau a gweithgareddau a gynigir gan y Gwasanaeth Addysg a gwasanaethau ehangach y Cyngor. Mae hyn wedi sefydlu sylfaen da ar gyfer y cynnig; mae'r wybodaeth wedi ei chynnwys ar un databas electronig, y gellir ei ddefnyddio fel rhan o'n prosesau cynllunio a'i ddiweddaru'n rheolaidd wrth i bethau newid. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio gyda holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a grwpiau ehangach i ddeall pa wasanaethau a gweithgareddau a gyngir ganddyn nhw a ddylai hefyd fod yn rhan o'r cynnig lles. Bydd datblygu'r olygfa gyfannol hon o'r ddarpariaeth gyda phartneriaid yn ein galluogi i wella cydgysylltiad rhwng gwasanaethau a defnyddio ffrydiau ariannu yn well yn y tymor hir.

**Grwpiau sy'n agored i niwed**

Fel rhan o'r ymarfer mapio, rydym wedi dechau edrych ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Yn benodol, rydym wedi canolbwyntio ar wasanaethau cefnogi yn ôl lleoliad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, plant a phobl ifanc sydd wedi eu gwahardd o leoliadau addysgol a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Rydym yn dechrau dadansoddi os gellir trefnu gwasanaethau i roi cymorth yn gynharach. Er bod gwaith pellach i'w wneud ar hyn yn y tymor hir, rydym wedi dechrau ailfodelu'r grwpiau cymorth proffesiynol i gynnwys partneriaid yn ehangach ac ehangu'r gwaith i gynnwys mwy o weithgareddau rhwystrol.

**Gweithio gyda'n partneriaid**

Rydym wedi datblygu fframwaith adrodd a gytunwyd gyda'r BGC, gyda lles plant a phobl ifanc wrth ei graidd. Rydym wedi sefydlu grŵp aml-asiantaeth i weithio ar les, ac mae hyn yn bwydo o mewn i'n agenda lles.



Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid iechyd ar brosiectau megis Dechrau'n Deg a hefyd fel rhan o'r peilot 1,000 diwrnod cyntaf. Rydym yn parhau i weithio gyda ysgolion a phartneriaid rhanbarthol eraill megis y Gwasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu. Yn ychwanegol at weithio'n agos gyda phartneriaid mewnol, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid BGC ac yn ehangach, i sefydlu dull i gefnogi'r agenda lles ar

gyfur plant a phobl ifanc, sydd nawr wedi ei gytuno a'i gymeradwyo gan y BGC.




**Gwrando ar bobl ifanc**

Rydym wedi parhau i gynnwys y gymuned ysgolion ac asiantaethau partner sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan / a gomisiynwyd gennym yn ein proses gynllunio. Rydym wedi symud ymlaen ar gynnwys pobl ifanc yn ein system o gymryd penderfyniadau, gan ddyfeisio cynllun hyfforddi ar gyfer staff aml-asiantaeth, i'w galluogi i wybod am gyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae ein Gwasanaeth Addysg wedi llofnodi Siarter Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru ac yn anelu at gyflawni'r nod 'cutan yn y man, ynghyd â dau bartner arall BGC. Pan gafodd fframwaith adrodd Plant a Phobl Ifanc ei ddrafftio, cynhwyswyd Cyfranogiad ac Ymgysylltu fel thema ac rydym wedi arolygu ein llwybrau adrodd a chyfranogiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys ar bob lefel o gymryd penderfyniad.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran amlinellu ein cynnig lles i blant a phobl ifanc, a meithrin ein perthnasau gyda phartneriaid i weithio mewn dull mwy cydweithredol. Yn gyffredinol, rydym yn mynd yn fwy anturus o ran cyflenwi a dylunio gwasanaeth a byddwn yn parhau i fabwysiadu'r dull hwn o weithio yn y meysydd sydd angen datblygiad pellach. Rydym yn dechrau datblygu rhai gweithgareddau gyda'n partneriaid BGC y credwn a fydd yn arwain y ffordd a byddwn yn medru dangos hyn pan fyddwn yn ail-ystyried yr amcanion/dulliau o weithio uchod y flwyddyn nesaf.



## AMCAN LLES – GOFAL CARTREF CYNALIADWY

– Ein prosiect i greu gweithlu lles cynaliadwy, sy'n sylfaenol i gyflenwi gofal i bobl yn eu cymunedau a'u cymdogaethau.

**Pam y bu i ni ddewis yr Amcan Lles hwn**

Cael eu cynorthwyo yn eu cartrefi eu hunain (# HomeFirst) yw beth y mae'r cyhoedd wedi ei ddweud yn gyson sy'n flaenoriaeth iddyn nhw.

Rydym yn cyflenwi 313,000 awr o ofal cartref yn y gymuned i drigolion Torfaen, gyda 90% o'r oriau wedi eu comisiynu yn allanol.


Mae amcanestyniadau yn nhwf y boblogaeth a phroffil demograffig yn awgrymu bod ochr gyflenwi gofal cymdeithasol yn ei chael yn anodd i gadw i fyny gyda'r galw. Mae'r data'n awgrymu y bydd angen dros hanner miliwn o weithwyr gofal / gofalwyr cartef newydd erbyn 2032.

Mae'r bwlch rhwng y galw am lafur a'r cyflenwad yn cael ei waethygu gan y syniad yn eang bod gyrfa yn y sector gofal cymdeithasol yn llai deniadol oherwydd amodau gwaith, cyflog isel, diffyg sicrwydd yn y swydd, diffyg cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith a statws cyffredinol y proffesiwn. Byddai profiad lleol yn cefnogi'r pwyntiau hyn. Mae recriwtio i'r tîm mewnol a darparwyr allanol yn her barhaus. Yn gryno, wrth i'r galw gynyddu, mae'r gweithlu posibl yn lleihau.

Mae'n amlwg bod y ddarpariaeth bresennol yn ei chael yn anodd ac nid yw'n addas i gyflenwi yn y




dyfodol. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2017




a Chwefror 2018, adroddwyd bod 23 o drigolion Torfaen wedi cael oedi o ran trosglwyddo gofal tra'n aros am becynnau gofal mewn gwelyau ysbyty.

Nid yw ein gwasanaeth mewnol yn medru cefnogi'r holl bobl newydd sy'n cyflwyno eu hunain i'r adran gyda rhaglen ailalluogi. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, sydd yn ei dro yn ychwanegu at y pwysau am wasanaeth hirdymor. O ystyried yr uchod, teimlir ei bod yn briodol ystyried yr opsiynau posibl i ddelio âr cynnydd mewn galw.

**Cynnydd hyd yma …**

Bu dwy elfen o waith yn datblygu yn 2018/19 – rhanbarthol a lleol.

**Rhanbarthol**

Rydym ar hyn o bryd yn arwain y tîm Trawsnewid Rhanbarthol. Mae llawer o waith wedi ei wneud, gyda chefnogaeth grant a ddarparwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Defnyddiwyd hon i:

**1. Ddatblygu ein hagwedd tuag at gomisiynu**

Rydym wedi datblygu datganiad o sefyllfa'r farchnad sy'n adnabod rhai o'r heriau a'r

cyfleoedd yn y farchnad. Defnyddiwyd hyn i fwydo gwybodaeth i'r cynllun gwaith ar gyfer y grŵp gofal cartref rhanbarthol.

Sefydlwyd grŵp comisiynu rhanbarthol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i oruchwylio'r rhaglen.

Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i sgopio darpariaeth comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ynghyd â modelau gwasanaeth newydd a chymorth hyfforddi i ddarpar ddarparwyr. Mae'r rhan fwyaf o fodelau ledled Cymru yn comisiynu gweithgareddau 'amser a thasg' h.y. galwad hanner awr i helpu i ymolchi a gwisgo cleient. Rydym ni a chynghorau eraill yn cydnabod bod angen i ni weithio gyda darparwyr mewn ffordd mwy hyblyg a fydd yn rhoi iddynt y gallu i ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' i'w cleientiaid.

**2. Recriwtio a chadw staff**


Mae fframwaith recriwtio a chadw staff yn cael ei ddatblygu i gefnogi gwaith tasglu cenedlaethol. Mae recriwtio a chadw staff yn y sector wastad wedi bod yn anodd gan fod swyddi eraill yn cael eu talu ar yr un raddfa (er enghraifft manwerthu) sy'n rhoi mwy o sicrwydd a llai o oriau anghymdeithasol. Mae'r grŵp cenedlaethol yn ystyried rhwystrau i bobl fynd i'r sector ac ystyried atebion i ddelio â hynny. Gall hyn gynnwys opsiwn amgen i gontractau dim oriau, llwybrau gyrfa ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, mynediad at gerbydau ar brydles.

Mae arolwg o arolygon a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal cartref wedi atgyfnerthu'r angen i wella recriwtio trwy ddarparu cyfeoedd i ddatblygu (gweithlu 'Lles'), llwybr gyrfa a gwell telerau ac amodau (e.e. gwyliau ac absenoldeb salwch).

**3. Datblygu llwybrau i waith**

Mae Swyddog Hwyluso ac Ymgysylltu (a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017) wedi parhau i weithio ledled Gwent i:

- Weithio'n uniongyrchol gyda cholegau – tra bo nifer o gyrsiau galwedigaethol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl 16+, dim ond canran bychan o bobl sy'n mynd ymlaen i gael eu cyflogi yn y maes. Mae'r




**Billy yr Arwr**

Yn ystod 2018, gyda'n partneriaid rhanbarthol, gwnaed cais am gyllid i gynhyrchu llyfr (Billy the Superhero) gyda'r nod o ysbrydoli plant i ddod yn weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Datblygwyd y stori gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Gymunedol Blenheim gyda chymorth gan y storïwr Mike Church o'r cwmni cyhoeddi Petra. Defnyddir y stori yn y dyfodol fel modd o gyflwyno pwnc iechyd a gofal cymdeithasol i blant, gan eu hannog i gyrraedd eu potensial ac ennyn diddordeb mewn rhagolygon gyrfa gwerth chweil.

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol (nyrsys, therapyddion galwedigaethol a gofalwyr cartref) a ymwelodd â'r plant i siarad am eu rôl ac i helpu ysbrydoli stori'r plant.

swyddog yn gweithio gyda cholegau a myfyrwyr i deall y rhesymau'n well,
- Cynnal dyddiau agored i godi proffil y sector a denu staff newydd,
- Gweithio mewn ysgolion i gynyddu proffil y cyfleoedd gwaith yn y maes gofal (gweler 'Astudiaeth Achos'),
- Gweithio gyda BIPAB, Chwarae Torfaen a Rhwydwaith Rhieni Caerffili i greu llyfr ar gyfer plant ysgolion cynradd ar swyddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwybod y bydd yr heriau'n cynyddu yn y dyfodol felly mae hon yn strategaeth hirdymor i ddylanwadu ar y nifer sy'n mynd i'r sector yn y dyfodol
- Cysylltu gyda Gyrfa Cymru i drafod sut medrwn ddylanwadu ar ysgolion a chyngor a roddir i'r sawl sy'n gadael yr ysgol ar ddewisiadau gyrfa,
- Datblygu cynllun cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fideo byr sy'n cael ei greu i'w ddefnyddio mewn ysgolion a cholegau.

**<u>Ar lefel leol</u>**

Mae ein cyflenwad o gymorth gofal cartref wedi ei fapio fesul stryd a fesul darparwr. Roedd hwn yn ymarfer arwyddocaol a gwerth chwil gan ein bod nawr yn gwybod yn union faint o oriau sy'n cael eu cyflewi mewn stryd / ardal ddaearyddol y medrwn ei ddefnyddio i'n helpu i ddatblygu tendr a chontractau yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol penodol. Defnyddir yr wybodaeth hon hefyd yn y fforymau darparwyr i gychwyn ein trafodaethau ar waith cymunedol seiliedig ar ardaloedd.

Rydym wedi ystyried modelau arferion gorau ledled y DU. Yn benodol rydym wedi edrych ar waith cyngor yn Lloegr yn y sector ar gomisiynu seiliedig ar ganlyniadau  ac rydym hefyd wedi cysylltu gyda chyngor yng Ngogledd Cymru sydd wedi gweithio'n wahanol gyda'u darparwyr. Bydd hyn yn bwydo gwybodaeth o ran sut byddwn yn meddwl yn y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau i helpu i gefnogi a sefydlogi'r farchnad. Mae dwy elfen i'r ffordd a gytunwyd. Yn gyntaf, byddwn (yn amodol ar gyllid) yn ehangu'r gwasanaeth a redir gan y cyngor o 10% i 14% o'r farchnad. Yn ail, byddwn yn gweithio gyda dararwyr y trydydd sector i weithredu'r argymhellion a'r egwyddorion yn Siarter Gofal Moesegol UNSAIN a gweithio'n seiliedig ar ardaloedd.

**<u>Yr hyn rydym yn ei gynllunio nesaf …</u>**

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn …

- Ymgymryd â gwaith dadansoddi data a mapio'r galw presennol – nifer a lledaeniad daearyddol – a bydd y ddau beth yn cael eu defnyddio i greu datganiad ar y farchnad fewnol ac allanol,
- Cadarnhau ein strwythur staffio newydd. Mae dadansoddiad a thrafodaethau cychwynnol wedi ffafrio …
  1. Ehangu ein Rheolwyr a'n timau Galluogi yn y gogledd a'r de dan y trefniadau rheoli presennol h.y. recriwtio gofalwyr ychwanegol i'r timau presennol.
  2. Ehangu'r tim Dementia presennol (i gynnwys Gofal Cymhleth) wrth greu ail dîm – i adlewyrchu ardaloedd gogledd a de'r Tîm Galluogi
- Trefnu gweithdai gyda darparwyr allanol i rannu ein gweledigaeth newydd ac i esbonio'r feddylfryd y tu ôl i'n strategaeth. Byddwn yn cychwyn y broses o newid y feddylfryd y tu cefn i'n perthynas gyda darparwyr, o un weithrediadol i un o berthynas/partneriaeth.

# Rhan 4 Arolygu a Dethol ein Hamcanion Lles

## A. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) - Diweddariad

Me'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ledled Torfaen yn aros yn gryf, ac rydym yn parhau i arwain ar hwyluso a gweinyddu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC). Mae'r BGC yn adeiladu ar drefniadau partneriaeth blaenorol a phresennol gyda'r pedwar partner statudol (ni, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) ynghyd â phartneriaid eraill. Mae'r rhestr lawn o'r aelodau i'w gweld yn www.Torfaenpublicservicesboard.co.uk

Defnyddiodd y BGC yr Asesiad o les yn Nhorfaen (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017) i ddatblygu Cynllun Lles ar gyfer Torfaen, gan bennu saith o amcanion lles. Mae'r cynllun hwn yn strategaeth hirdymor, sy'n ceisio cael newid cenedliadol. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2017, gan nodi meysydd ar gyfer gweithredu sy'n ychwanegol i fusnes bob dydd partneriaid. Cred y BGC bod y Cynllun Lles yn nodi meysydd a fydd yn ychwanegu gwerth ac y gellir ond eu cyflawni trwy gydweithredu; a chyda'i gilydd, cymunedau eraill a phartneriaid ehangach yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r BGC yn anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Nhorfaen. Mae nawr yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob amcan a fydd yn arwain at gyflawni hynny yn y tymhorau byr, canolig a hir.

Bydd y gwaith hwn yn mynd gyda'n gwaith ni wrth i ni bennu ein hamcanion lles ein hunain at y dyfodol a'n helpu ni i  weithio i gyflawni'r amcanion cenedlaethol yn y tymor hirach.



## B. Gwirio ein blaenoriaethau yn erbyn y BGC

Mae angen i'n datganiadau lles blynyddol a'n cynlluniau gwella nodi ein cyfraniad i gyflawni'r gwaith partneriaeth a, ble bynnag y bo modd, dylem wneud cysylltiadau rhwng ein blaenoriaethau corfforaethol a phartneriaeth.

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o bennu amcanion lles i gydymffurfio gyda Deddf LlCD, ein ffocws oedd datblygu a phrofi ein dulliau gyda phrosiectau allweddol wedi eu dylunio i gyflawni ein blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol. Mae'r prosiectau hyn yn rhai sylweddol ac yn debygol o ddatblygu dros nifer o flynyddoedd.

Fodd bynnag, mae wedi dod yn glir i ni na fedrwn barhau i ychwanegu mwy a mwy o brosiectau i restr sy'n tyfu trwy'r amser o amcanion lles.

At hyn, mae angen i Gynllun Lles, y BGC, sydd newydd ei gyhoeddi ac sy'n cynnwys 7 o amcanion a gytunwyd, gael ystyriaeth ddyledus;

1. Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei gysylltu, o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol poblogaethau lleol
2. Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd
3. Rhoi cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc
4. Cefnogi ffordd o fyw iach a galluogi pobl i heneiddio'n dda
5. Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd
6. Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli
7. Creu cymunedau diogel, hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Mae angen i'n blaenoriaethau ni fod yn berthnasol ond dylent hefyd gyfrannu i ddyheadau'r BGC (*fel y nodir yn y diagram ar y dudalen nesaf*).

Rydym felly wedi mynd trwy ymarfer o ystyried ein 3 blaenoriaeth ni yn y cynllun corfforaethol, gan ddadansoddi ac arolygu os ydynt yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer 2019-20 tra'n cefnogi dyheadau cyffredinol y BGC.

I'n helpu ni i benderfynu os yw ein hamcanion lles yn rhai priodol, rydym wedi ystyried Asesiad Lles a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddodd hyn wybodaeth i ni am yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol a sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles.


Dywedodd yr asesiad wrthym bod ein cymunedau yn gymhleth ac yn ddeinamig a bod gan bob un set wahanol o brofiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, sy'n dylanwadu ar les y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae amrywiaeth eang o anghyfartaledd ar draws y fwrdeistref, ac mae hyn yn ffactor allweddol sy'n effeithio lles. Ar y cyfan, mae gan bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig fywydau byrrach ac mae'r rhai sydd yn byw yn hirach yn fwy tebygol o ddioddef salwch hirdymor. Mae plant sy'n byw ar aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o lawer o adael yr ysgol gydag ond ychydig neu ddim cymwysterau, sy'n gwaethygu tlodi i genedlaethau'r dyfodol.

Mae pobl yn byw'n hirach oherwydd gwelliannau meddygol, ond i lawer, mae'r oes hirach hon yn dod gyda dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyhoeddus. Gall sicrhau bod pobl yn medru defnyddio mannau gwyrdd wedi eu cynnal yn dda wella lles corfforol a meddyliol i bawb. Mae'r asesiad hefyd yn nodi bod 'lle' yn bwysig i bobl a bod ein hadnoddau naturiol yn ased gwerthfawr sy'n sylfaenol i les.

Roedd casglu barn pobl sy'n byw a gweithio yn Nhorfaen yn rhan bwysig o'r asesiad, ac rydym wedi defnyddio hyn i'n helpu ni i feddwl am ein hamcanion lles ni. Mae pobl ledled y fwrdeistref wedi dweud eu bod yn gwertrhfawrogi ein

mannau gwyrdd, eisiau strydoedd diogel a glân, tai fforddiadwy ac iechyd da.

## Cysylltu ein Cynllun Corfforaethol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus




## TORFAEN LÂN A GWYRDD


| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau lles Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei chysylltu, o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol y boblogaeth leol. | ▪ Creu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd cynaliadwy lleol a fydd yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | | Cymru ffyniannus | ▪ Gall adnoddau naturiol wedi'i rheoli'n dda gefnogi nifer o sectorau busnes e.e. twristiaeth ac adloniant.<br>▪ Gall gwirfoddoli amgylcheddol a dysgu sgiliau newydd fod yn llwybr i waith. |
| Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd | ▪ Gall adnoddau naturiol a reolir yn dda gefnogi gwytnwch hinsawdd nawr ac i'r dyfodol. | | Cymru gydnerth | ▪ Bydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy helpu bioamrywiaeth a chyfrannu tuag at wytnwch ecolegol.<br>▪ Gall adnoddau naturiol a reolir yn dda gefnogi gwytnwch hinsawdd nawr ac i'r dyfodol.<br>▪ Bydd gweithredu i rwystro tipio anghyfreithlon, gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon a thanau gwyllt gefnogi gwytnwch amgylcheddol. |
| Rhoi i blant a phobl ifanc y cychwyn gorau posibl mewn bywyd. | ▪ Mae adnoddau naturiol yn sylfaenol i iechyd a rhoi'r cychwyn gorau i blant mewn bywyd – maent yn cynhyrchu ocsigen, yn helpu i reoli'r hinsawdd, rheoli dŵr, gwella ansawdd yr aer a gallant leihau sŵn. | | Cymru iachach | ▪ Mae gwneud y mwyaf o gyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr fwynhau'r awyr agored a'r manteision iechyd cysylltiedig yn cefnogi Cymru iachach.<br>▪ Gall amgylcheddau naturiol ac adeiledig gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth yn hirach.<br>▪ Mae ecosystemau swyddogaethol iach yn hanfodol i'n hiechyd - maent yn cynhyrchu ocsigen, yn helpu i reoli'r hinsawdd, rheoli dŵr, gwella ansawdd yr aer a gallant leihau sŵn.<br>▪ Gall gwirfoddoli amgylcheddol wella hunan-barch a gwella lles meddyliol. |

| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau lles Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi ffordd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda. | ▪ Gall mannau gwyrdd wedi eu cynnal yn dda gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth yn hirach. | | Cymru mwy cyfartal | ▪ Mae galluogi i bob rhan o'n cymunedau fanteisio ar fannau gwyrdd yn cyfrannu at Gymru mwy cyfartal. |
| Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd. | ▪ Bydd sicrhau bod mynediad i fannau gwyrdd yn gyfartal yn cyfrannu at les ein cymundau mwyaf difreintiedig. | | Cymru o gymunedau cydlynol | ▪ Mae gofyn i drigolion am eu barn ar gynnal mannau agored yn eu cymunedau yn cefnogi cymunedau cydlynol.<br>▪ Mae gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a phartneriaid lleol i gynnal mannau agored yn cyfrannu at gymunedau mwy cydlynol.<br>▪ Mae cymryd camau i rwystro troseddau amgylcheddol e.e. tipio anghyfreithlon, gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon a thanau gwyllt yn medru gwella teimlad o ddiogelwch a chyfrannu at gymunedau mwy cydlynol. |
| Gwella sgiliau lleol wrth gynllunio gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | ▪ Mae llawer o gyfleoedd i wirfoddoli a gwella sgiliau lleol yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. | | Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu | ▪ Mae cynnal a gwella ansawdd ein tirwedd unigryw a hanesyddol yn cefnogi Cymru o ddiwylliant bywiog. |
| Creu cymunedau diogel, hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. | ▪ Mae cymryd camau i rwystro troseddau amgylcheddol e.e. tipio anghyfreithlon, gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon a thanau gwyllt yn medru gwella teimlad o ddiogelwch a chyfrannu at gymunedau mwy cydlynol. | | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | ▪ Bydd cefogi ecosystemau swyddogaethol iach yn cyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. |

## Trosolwg o'r Angen – Ystadegau Allweddol




Mae'r angen i weithredu'n gynaliadwy yn gysylltiedig iawn gyda chyflenwi Torfaen lân a gwyrdd. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi cymunedau i fod yn fwy cynaliadwy yw cefnogi trigolion i ailgylchu eu gwastraff a lleihau faint o wastraff a anfonir i'w dirlenw. Mae cyfraddau ailgylchu ledled Cymru wedi cynyddu'n fawr dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae'r cyfraddau wedi codi o 5% i 64% yn y cyfnod hwnnw. Roedd cyfradd ailgylchu Torfaen yn 2017-18 yn 60.6%. Er nad cyrraedd targedau yw'r prif reswm dros fod eisiau gwella'r cyfraddau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau heriol i holl awdurdodau lleol Cymru y mae angen i ni eu cyrraedd er mwyn osgoi dirwyon sylweddol. Mae'r targedau hyn yn cynrychioli her sylweddol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyda charreg filltir 2019-20 yn 65%, a'r disgwyl yw y byddwn yn cyrraedd 70% erbyn 2024-25.




Mae glendid y fwrdeistref bob amser wedi bod yn bwysig i'n trigolion. Pan fydd tipio anghyfreithlon yn digwydd, fe wnawn yr hyn a allwn i adnabod pwy sy'n gyfrifol er mwyn medru eu herlyn a rhwystro pobl eraill rhag gwneud yr un peth. Yn yr un modd, rydym nawr yn effeithiol iawn wrth glirio gwastraff sydd wedi ei adael, ond yn amlwg byddai'n well gennym pe na byddai tipio anghyfreithlon o gwbl. Er bod nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi gostwng yn arwyddocaol yn y 2 flynedd ddiwethaf, cyn hyn roeddem yn gweld lefelau uchel iawn, gyda rhyw 900 o achosion yn y flwyddyn ariannol 2015-16. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf defnyddiwyd arolwg trigolion i holi pobl sy'n byw yn Nhorfaen am eu barn ar lendid yn y fwrdeistref ac oes oeddynt yn teimlo bod yr ardal yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff. Bu newid bach yn unig yn y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae'r ymateb yn dangos bod pryderon arwyddocaol o hyd gan ein trigolion am lendid Torfaen.

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff | 31.34% | 31.14% |
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn cael ei chynnal yn dda | 39.44% | 39.04% |


## CODI CYRHEDDIAD ADDYSGOL

| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau Lles cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi eu cysylltu o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol y poblogaethau lleol. | **Ddim yn berthnasol** | | Cymru ffyniannus | ▪ Gall gwella cyfle mewn bywyd alluogi pobl i gyflawni eu potensial a chyfrannu i'r economi lleol.<br>▪ Bydd cefnogi ac annog pobl ifanc i'w rhwystro rhag mynd yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) eu galluogi i ddod yn rhan o weithlu lleol gyda sgiliau.<br>▪ Bydd gweithio i sicrhau bod gan holl ddysgwyr sgiliau llythrennedd a rhifedd da fel eu bod yn medru dod yn rhan o weithlu cynhyrchiol yn cefnogi Cymru ffyniannus. |
| Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. | ▪ Mae ein prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu dylunio i fod yn gynaliadwy, cyflawni Rhagorol BREEAM (mesur o gynaliadwyedd y prosiect).<br>▪ Mae ein canolfan addysg ôl-16 newydd wedi cael cyllid ychwanegol ar gyfer mesurau lliniaru llifogydd. | | Cymru gydnerth | ▪ Mae cymryd rhan mewn eco-ysgolion yn grymuso plant i yrru newid a gwella eu hymwybyddiaeth amgylcheddol.<br>▪ Mae eco-ysgolion yn datblygu sgiliau plant, yn codi ymwybyddiaeth amgylcheddol, gwell amgylchedd yn yr ysgol a chreu arbedion ariannol i ysgolion ynghyd â llawer o fanteision eraill. |
| Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc. | ▪ Bydd cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar, adnabod anghenion dysgwyr ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod holl blant a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddysgu a chyflawni yn helpu i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bobl ifanc. | | Cymru iachach | ▪ Bydd sicrhau bod holl blant yn cyrraedd eu potensial addysgol yn eu galluogi i ddod yn rhan o weithlu iach a fydd yn cefnogi iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd. |


| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau Lles cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi ffordd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda. | ▪ Bydd sicrhau bod holl blant yn cyrraedd eu potensial addysgol yn eu galluogi i ddod yn rhan o weithlu iach a fydd yn cefnogi iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd. | | Cymru mwy cyfartal | ▪ Mae codi cyrhaeddiad addysgol yn cefnogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir.<br>▪ Gall gwella bylchau cyrhaeddiad cymdeithasol-economaidd wella cyfleoedd bywyd gan gynnwys i bobl gyda nodweddion gwarchodedig neu o deuluoedd incwm isel. |
| Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd. | ▪ Bydd codi cyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys delio gyda bylchau cymdeithasol-economaidd yn cefnogi'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol i ddod yn rhan o weithlu gyda sgiliau a fydd yn cyfrannu at ddelio â thlodi a meithrin gwytnwch economaidd. | | Cymru o gymunedau cydlynol | ▪ Bydd gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'n ddinasyddion llawn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. |
| Gwella sgiliau lleol wrth gynllunio gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | ▪ Bydd cefnogi ac annog pobl ifanc i'w rhwystro rhag mynd yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) yn eu galluogi i ddod yn rhan o weithlu lleol gyda sgiliau. | | Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu | ▪ Dylai cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ddechrau yn gynnar ac mae gan ein hysgolion, rhai Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng, ran fawr i'w chwarae o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg a chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu Gymraes.<br>▪ Bydd ein darpariaeth addysg Gymraeg yn gwella wrth i ni ailfodelu ein hysgol uwchradd Gymraeg ei chyfrwng gan ymestyn amrediad oedran Ysgol Gyfun Gwynllyw o 11-18 i 3-18. |
| Creu cymunedau diogel, hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. | ▪ Bydd gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'n ddinasyddion llawn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. | | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | ▪ Bydd gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'n ddinasyddion llawn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. |

**Trosolwg o'r Angen – Ystadegau Allweddol**

Mae cynaliadwyedd economaidd yn gysylltiedig â'r system addysg a'i gallu i gefnogi plant i gyrraedd eu potensial. Mae ffyniant economaidd, cydlyniant cymdeithasol a lles yn cael eu hadeiladu ar sylfeini system addysg gref a llwyddiannus. Mae gwella addysg yng Nghymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Wrth ddewis gwelliannau addysgol fel blaenoriaeth rydym wedi cydnabod hyn a'r ffaith bod angen i lefelau cyrhaeddiad wella yn lleol yn Nhorfaen.




Wrth asesu ein lefelau cyrhaeddiad yn erbyn y mesur perfformiad allweddol; disgyblion yn cael 5 TGAU (gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg). O 2012 roedd gwelliant cyson mewn cyrhaeddiad hyd at 2015. Ond ers 2015 mae lefelau wedi mynd i lawr yn raddol bob blwyddyn. Er bod y gostyngiad hwn yn rhan o duedd genedlaethol sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru, mae angen di-os o hyd i wella cyrhaeddiad.




Yn cyfrannu at y lefelau cyrhaeddiad isel mae'r anghyfartaledd mawr rhwng lefelau cyrhaeddiad gwahanol grwpiau. Er enghraifft yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf roedd bwlch arwyddocaol rhwng lefelau cyrhaeddiad bechgyn a merched a phlant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt. Mae angen i ni felly ganolbwyntio ar godi safonau ysgolion a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau trwy gyflenwi system addysg sy'n caniatáu i'n disgyblion o bob cefndir gyflawni eu potensial.

Yn olaf, mae categoreiddio blynyddol ein hysgolion yng Nghymru yn rhoi barn gyffredinol ar safonau ysgol. Er y bu gwelliannau o ran sut caiff ein hysgolion eu categoreiddio yn 2018/19, mae lle i wella o hyd, yn enwedig gyda'r ysgolion uwchradd sy'n dal yn y ddau gategori isaf (coch ac ambr).

| Categoreiddio Ysgolion Cynradd – 2018/19 | | | |
|---|---|---|---|
| Coch | Ambr | Melyn | Green |
| 4% | 8% | 32% | 56% |
| **Categoreiddio Ysgolion Uwchradd – 2018/19** | | | |
| 17% | 67% | 0% | 17% |


## CYMORTH I BOBL MWYAF AGORED I NIWED YN NHORFAEN


| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau Lles cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi eu cysylltu o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles presennol ac i'r dyfodol y poblogaethau lleol. | **Ddim yn berthnasol** | | Cymru ffyniannus | ▪ Mae ffordd iach o fyw yn cefnogi gweithlu cynhyrchiol.<br>▪ Gall pobl hŷn iach barhau i weithio cyn hired ag y dymunent.<br>▪ Gall delio gyda'r cyfleoedd bywyd sy'n cyfrannu at dlodi alluogi pobl i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniad cynhyrchiol i'r economi. |
| Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. | ▪ Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gael mwy o effaith ar yr henoed a grwpiau sy'n agored i niwed e.e. eithafion mewn tymheredd (oerni a gwres). | | Cymru gydnerth | ▪ Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gael mwy o effaith ar yr henoed a grwpiau sy'n agored i niwed e.e. eithafion mewn tymheredd (oerni a gwres). |
| Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc. | ▪ Bydd gweithio i ddelio gyda thlodi, yn enwedig tlodi plant, yn helpu i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant. | | Cymru iachach | ▪ Bydd cefnogi'r gymuned i ddelio gyda phroblemau iechyd penodol ac annog ffordd o fyw iach a hybu gwasanaethau gwybodaeth sy'n galluogi i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus ar eu hiechyd yn cefnogi Cymru iachach. |
| Cefnogi ffordd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda. | ▪ Bydd cefnogi'r gymuned i ddelio gyda phroblemau iechyd penodol ac annog ffordd o fyw iach a hybu gwasanaethau gwybodaeth sy'n galluogi i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus ar eu hiechyd yn cefnogi Cymru iachach. | | Cymru mwy cyfartal | ▪ Bydd gweithredu i drechu tlodi ac anghyfartaledd yn lleol yn helpu i greu Torfaen mwy cyfartal.<br>▪ Bydd gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol yn helpu i wella bywydau'r mwyaf agored i niwed yn cefnogi Cymru mwy cyfartal. |

| Cysylltu ein Blaenoriaeth gydag Amcanion Lles y BGC | | | Cysylltu ein Blaenoriaeth gyda'r Nodau Lles cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd. | ▪ Bydd cefnogi'r trydydd sector a chymunedau i ddod yn fwy gwydn yn ariannol ac yn gymdeithasol yn helpu i drechu tlodi. | | Cymru o gymunedau cydlynol | ▪ Bydd gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol yn helpu i wella bywydau'r mwyaf agored i niwed yn cefnogi Cymru mwy cyfartal |
| Gwella sgiliau lleol wrth gynllunio gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | ▪ Cefnogi rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel i wella eu sgiliau ac osgoi canlyniadau iechyd a chymdeithasol tlodi. | | Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu | ▪ Rydym yn cydymffurfio gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg wedi ei chynnwys yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau a gwneud 'cynnig gweithredol' i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn am wasanaeth yn y Gymraeg. |
| Creu cymunedau diogel, hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. | ▪ Bydd gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol yn helpu i wella bywydau'r mwyaf agored i niwed yn cefnogi Cymru mwy cyfartal | | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | ▪ Mae gennym draddodiad hir a balch o gefnogi pobl sy'n agored i niwed. Rydym wedi ac rydym yn parhau i adleoli teuluoedd llocheswyr yn llwyddiannus yn Nhorfaen. |

## Trosolwg o’r Angen – Ystadegau Allweddol


Y newid demograffig mwyaf arwyddocaol a ragwelir dros y degawdau nesaf fydd poblogaeth sy’n raddol heneiddio. Er fod hyn yn duedd fyd-eang mae’n debygol o fod yn arbennig o arwyddocaol ledled Ewrop. Ar lefel leol rhwng 2011 a 2017, mae dadansoddiad o’r boblogaeth yn Nhorfaen yn dangos cynnydd graddol yn y nifer o bobl sy’n 65 a throsodd, gan gynyddu o 18% i 20.2%. Mae hon yn duedd y disgwylir iddi barhau yn y dyfodol rhagweladwy. Mae disgwyliad einioes yn Nhorfaen i gynyddu’n raddol dros y 25 mlynedd nesaf o 81 yn 2015 i 86 yn 2039. Disgwylir y bydd y boblogaeth hŷn yn rhoi mwy o bwysau ar ein gwasanaethau wrth i nifer y trigolion gydag anghenion cymhleth gynyddu.




Mae anghenion cymhleth hefyd yn ffactor o ran y galw am wasanaethau plant. Yn ystod y 15 mynedd ddiwethaf mae nifer y Plant sy’n Derbyn Gofal (LAC) wedi codi’n fawr ar lefel genedlaethol a lleol. Mae nifer o resymau cymhleth am y cynnydd – ffactorau cymdeithasol-economaidd, sut caiff LAC ei gofnodi, ynghyd â newidiadau o ran sut rydym yn asesu a delio gyda risg sy’n gysylltiedig gyda phoblgaeth LAC uwch. Serch hynny, mae’r canlyniad cyfunol wedi bod yn gynnydd arwyddocaol yn y nifer o blant sydd nawr yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Yn genedlaethol mae nifer LAC ers 2003 wedi cynyddu o bron i 4,200 i ryw 6,200 mewn 15 mlynedd. Hyd yn oed ar lefel leol ers 2016 mae nifer LAC yn Nhorfaen wedi cynyddu draean, gan godi o 270 i 365 yn 2018.



## C. Ein Hamcanion Gwella a Lles

Rydym felly o'r farn bod ein blaenoriaethau presennol (a'n Hamcanion Gwella) yn dal yn berthnasol a dylent lunio'r sylfaen dull diwygiedig o ran pennu ein hamcanion Lles thematig, gan gasglu croestoriad mwy o'r hyn rydym yn ei wneud i gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Rydym wedi dewis amcanion lle rydym yn meddwl y medrwn wneud gwahaniaeth i les lleol, gan weithio gyda phartneriaid a'n dinasyddion. Rydym wedi meddwl am sut medrwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad i nodau lles cenedlaethol. Ni fedrwn wneud popeth a mae angen canolbwyntio ein hadnoddau, ond rydym wedi meddwl yn ofalus am ble medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i les y bobl sy'n byw a gweithio yn Nhorfaen.

Mae ein Hamcanion Lles a Gwella ar gyfer 2019-20 felly wedi eu pennu fel:

| … TORFAEN LÂN A GWYRDD | … CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL | … CYMORTH I'R MWYAF AGORED I NIWED YN NHORFAEN |
|---|---|---|

Mae **Atodiadau 1 i 3** yn nodi detholiad o weithgareddau y byddwn yn eu hymgymryd yn y flwyddyn nesaf i symud ymlaen gyda'n hamcanion. Gyda phob atodiad mae cyfres o fesurau perfformiad rydym wedi bod yn eu casglu, adrodd arnynt a'u monitro ers mabwysiadu ein Cynllun Corfforaethol.

## D. Defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio i gyflawni ein Hamcanion

Wrth graidd Deddf LlCD mae'r egwyddor cynaliadwyedd. Fel y nodwyd yn 'Adran 1' mae'r egwyddor yn nodi bod angen i ni a chyrff cyhoeddus eraill weithio i sicrhau bod 'anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol'.

Mae'r Ddeddf LlCD 2015 yn rhoi 5 peth ar waith y mae angen i ni feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Bydd dilyn y 'pum ffordd o weithio' yma yn ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a delio gyda rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu wynebu.

Rydym yn ymroddedig i ddyheadau Deddf LlCD 2015 a thros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r gofynion ac yn elwa o'i gweithrediad. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf 'Defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio' yn nodi ein dull cyffredinol o ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a phwysigrwydd ein hamcanion lles o ran cyflenwi Torfaen gynaliadwy.

At hyn, at y dyfodol, bydd angen i bob strategaeth a pholisi rydym yn eu datblygu ystyried ethos y Ddeddf. Ar gyfer rhai gweithgareddau, bydd newid arwyddocaol yn cyflwyno asesiad lles ategol a gaiff ei ddefnyddio i'n helpu ni i gynllunio a chyflenwi ein gwasanaethau yn well. Bydd pob asesiad lles yn dweud, ymhlith pethau eraill, sut mae prosiectau yn cysylltu gyda'r nodau lles cenedlaethol ynghyd â nodi sut mae'r 5 ffordd o weithio wedi cael ystyriaeth ddyledus.



| Defnyddio'r 5 ffordd o weithio | |
|---|---|
| **Integreiddio** | I'n helpu i benderfynu os oedd ein hamcanion lles yn rhai cywir, edrychwyd ar Asesiad Lles a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddodd hyn i ni wybodaeth am heriau allweddol a chyfleoedd sy'n wynebu ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol a sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles.<br><br>Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn dangos sut mae Amcanion Lles y Cyngor yn cysylltu gyda chynllun lles BGC Torfaen a'r Nodau Lles Cenedlaethol. Drwy ymgymryd ag asesiadau lles ar gyfer pob maes gwaith arwyddocaol, byddwn yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflewi, gan roddi ystyriaeth lawn i nodau ac amcanion ein partneriaid. |
| **Hirdymor** | Nododd asesiad lles y BGC amrywiaeth o heriau hirdymor sy'n wynebu ein cymunedau sydd â'r potensial i effeithio lles.<br><br>Bydd creu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Bydd torri cylchoedd rhyng-genedlaethol o dlodi yn helpu i gefnogi lles hirdymor. Bydd cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar a rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant yn cefnogi lles yn ddiweddarach yn eu bywydau. |
| **Rhwystro** | Bydd cefnogi plant i gael y cychwyn gorau mewn bywyd a chefnogi ffordd iach o fyw yn ein helpu i dorri'r cylch gyda rhai o'r problemau rhyng-genedlaethol mwyaf a gwella lles cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mae ein model newydd o weithio gyda gofal cymdeithasol oedolion wedi ei wreiddio mewn cefnogi annibyniaeth ein trigolion a rhwystro pobl rhag mynd i argyfwng.<br><br>Bydd gweithio mewn modd cynaliadwy yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Cyfranogiad** | Mae gofyn am farn pobl sy'n byw a gweithio yn Nhorfaen yn hanfodol o ran datblygu a chyflenwi ein gwasanaethau. Mae deall barn pobl yn rhan bwysig o Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac rydym wedi defnyddio hyn i'n helpu ni i feddwl am ein hamcanion lles. |
| **Cydweithredu** | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'n trigoliom, y trydydd sector a'n partneriaid lle mae'n fuddiol i gyflawni ein hamcanion lles. |

# Rhan 5 – Meysydd Newid Corfforaethol

Mae defnyddio'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygiad cynaliadwy) ac ystyried sut rydym yn cyfrannu i bob un o'r saith nod lles yn gofyn i ni weithredu ar draws y Cyngor.

Mabwysiadu dull seiliedig ar ganlyniadau yw un o'r ffyrdd y medrwn addasu ein prosesau busnes yn unol â'r Ddeddf. Mae'n ymwneud â sut rydym yn cynllunio ac olrhain cyflenwad, yng nghyd-destun canlyniadau lefel poblogaeth yn hytrach nag allbynnau lefel trefniadol (perfformiad).

Mae Deddf LlCD 2015 yn disgrifio 7 maes corfforaethol o newid (Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Cynllunio Gweithlu, Caffaeliad, Asedau, Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad), ble, petaem yn defnyddio gofynion y Ddeddf, buasem fwyaf effeithiol o ran sicrhau'r math o newid sydd ei angen.

**Cynnydd hyd yma yn erbyn y 7 maes o newid corfforaethol …**

Hyd yma, mae sylw ar y saith maes o newid corfforaethol wedi canolbwyntio'n bennaf ar ail-ddiffinio prosesau cynllunio corfforaethol, ariannol a chynllunio gwasanaeth fel eu bod yn annog yr holl wasanaethau i feddwl am ofynion y Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi ail-ddylunio ei broses o gynllunio gwasanaeth ar gyfer 2019/20 fel bod gwasanaethau yn diffinio gweledigaeth ar gyfer y tymor hirach ac mae eu holl weithgareddau newid yn ystyried eu cyfraniadau i gyflenwi blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor a chynlluniau gweitherdu'r BGC ar gyfer yr amcanion yng Nghynllun Lles Torfaen.

Mae ein gweithgareddau "Busnes fel arfer" wedi eu rhestru ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ynghyd â mesurau perfformiad a thargedau fel ei bod yn glir gweld lefel y cyflenwi a ddisgwylir. Mae hunan-arfarniadau wedi ystyried cynnydd ac wedi amlygu heriau sydd angen eu trin, gan gynnwys goblygiadau i'r gweithlu yn y dyfodol. Lle cynigir newidiadau, bydd asesiad lles diwygiedig yn cael ei gwblhau. Bydd gweithgareddau newid a gymeradwywyd wedyn yn cael eu traws-gyfeirio i'n Cofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod risgiau hirdymor yn cael eu nodi a'u monitro.

Mnewn perthynas â meysydd newid corfforaethol eraill, mae cynnydd wedi bod yn sefydlog. I helpu cynnal momentwm, mae Rheolwr Amgylcheddol a Chynaliadwyedd y Cyngor nawr yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw ac mae rhai swydd-ddisgrifiadau wedi eu diweddaru i ddangos ymrwymiad i'r Ddeddf. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi gweithio'n hyblyg ac mae staff yn medru gweithio o'r cartref neu leoliadau eraill pan fo'n briodol. Mae loceri staff hefyd ar gael. Mae Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn ddiweddar wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl ac mae polisi'n cael ei ddatblygu a fydd yn hybu hyrwyddwyr iechyd meddwl ar drws y gyfundrefn.

Fel rhan o'n strategaeth lleihau carbon, mae pum cerbyd trydan Nissan ENV wedi eu cyflwyno i'n gwasanaeth Pryd ar Glud, ac rydym hefyd yn cydweithredu (gyda Chyfoeth Anturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, 5 x Awdurdod Lleol, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru) i edrych ar y posibilrwydd o osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled Gwent. Mae astudiaeth yn cael ei chomisiynu i wneud argymhellion ar gyfer dull cost-effeithiol, rhanbarthol ar gyfer seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan, y gall partneriaid ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun cyflenwi EV rhanbarthol. Bydd yr astudiaeth yn ystyried safleoedd penodol ledled y rhanbarth ym meddiant partneriaid sector cyhoeddus.

Lle bo'n ymarferol, rhennir defnydd asedau gydag asiantaethau eraill i resymoli ein swyddfeydd corfforaethol a'r portffolio eiddo gweithredol. Mae ein gweithgaredd yn adnabod ac yn gweithredu mesurau arbed ynni i leihau allyriad

carbon, ac mae ar hyn o bryd yn cynllunio a chaffael fferm solar ar hen safle tirlenwi Tŷ Coch. Mae'r cyfle hwn yn bodoli i ddatblygu hyd at 3.85MW o ynni solar PV i gynhyrchu incwm cynaliadwy a symud tuag at economi dim carbon. Bydd datblygiad arfaethedig 3.85MW Tŷ Coch yn cynhyrchu rhyw 3.75 GWh o ynni adnewyddadwy bob blwyddyn a gwrthbwyso rhyw 1,312.4 tunnell o CO2 o gymharu gyda thrydan a gynhyrchir yn gonfensiynol.

## Dyrannu ein hadnoddau

Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru trwy ein cytundeb terfynol a grantiau a roddir i ddibenion penodol. Yr unig adnoddau arwyddocaol sydd ar gael i ni eu penderfynu mewn perthynas ag incwm refeniw yw ffioedd a thaliadau am y gwasanaethau rydym yn eu darparu, a lefel y Dreth Gyngor. Er gwaethaf yr argraff sydd gan lawer o bobl, mae'r Dreth Gyngor yn cynrychioli dim ond rhyw 17% o'n cyllid gros.

Mae ein hagwedd tuag at bennu ein cyllideb yn 2019/20 yn un sy'n parhau i fuddsoddi mewn / amddiffyn ein meysydd blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol h.y.:

- Cynorthwyo gyda'r cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol,
- Darparu amddiffyniad cymharol i'n hysgolion h.y. 'amddifyniad ariannol', arian ar gyfer cyflog athrawon a chyllid ar gyfer cofrestri disgyblion ychwanegol, a
- Chynnal ein cyllidebau gwyrddio a glanhau.

Ar 17eg Ionawr 2019 ystyriodd ein cyfarfod Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Busnes Traws-ffiniol ein hagwedd tuag at y gyllideb a'r lliniariad a gyflwynwyd i gael sefyllfa gytbwys ar gyfer 2019/20.

Amlinellir isod y gyllideb arfaethedig bresennol yn ôl Maes Gwasanaeth (yn erbyn y gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2018/19):

| | Cyllideb Net 2018/19 (£'000oedd) | Cyllideb net arfaethedig 2019/20 (£'000oedd) |
|---|---|---|
| **Addysg gan gynnwys ysgolion** | 68,783 | 69,990 |
| **Gofal Cymdeithasol a Thai** | 44,359 | 44,560 |
| **Gwasanaethau Cymdogaeth** | 17,929 | 18,642 |
| **UCGC** | 984 | 982 |
| **TGCh** | 2,905 | 2,971 |
| **Adnoddau** | 5,916 | 6,473 |
| **Prif Weithredwr** | 5,773 | 6,092 |
| **Cyllid Cyfalaf** | 10,872 | 11,123 |
| **Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor** | 8,883 | 9,354 |
| **Awdurdod Tân De Cymru** | 4,307 | 4,337 |
| **Cynnal a Chadw Eiddo Corfforethol** | 911 | 911 |
| **Llinariad Corfforaethol** | (539) | (133) |
| **Rhwystro ac ymyrraeth gynnar** | 352 | 295 |
| **Arall** | 1,565 | 1,365 |
| **Cyfanswm** | **173,000** | **176,962** |

I sicrhau bod unrhyw linariad yn cael ei gynllunio'n iawn, gyda'r holl effeithiau posibl wedi eu hystyried a lle bo modd, wedi eu lliniaru, mae Asesiadau Lles wedi eu datblygu o gymharu â'r cynigion perthnasol a gytunwyd. Bydd manylion llawn ein cyllideb derfynol ar gael ar ein gwefan.

**Strategaeth Gyfalaf**

Mae ein rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 hyd at 2021/22 wedi ei llunio gan ddefnyddio blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol i'w llywio. Roedd Cyllideb 2019/20 Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynigion ar gyfer £100 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf a fyddai ar gael i awdurdodau lleol ac o ganlyniad adnoddau ychwanegol o £2.4 miliwn ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

Crynhoir y rhaglen bresennol yn y tabl canlynol:

| Holl £ filiynau | 2018/19 Diwygiedig | 2019/20 Amcangyfrif | 2020/21 Amcangyfrif | 2021/22 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | 26.17 | 24.97 | 3.97 | 0.07 |
| **Gofal Cymdeithasol a Thai** | 1.60 | 1.10 | 1.10 | 1.10 |
| **Gwasanaethau Cymdogaeth** | 5.47 | 4.60 | 2.60 | 0.89 |
| **Corfforaethol** | 1.73 | 0.71 | 0.71 | 0.88 |
| **Adnoddau i'w dyrannu** | 2.13 | 1.02 | 2.03 | 2.03 |
| **Cronfa Gyffredinol** | **37.10** | **32.40** | **10.41** | **4.97** |

Ein prif feysydd gwariant yn y tabl uchod yw:

- Addysg – cwblhau Band A rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif.
- Gofal Cymdeithasol a Thai – mae ein prif wariant ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl.
- Gwasanaethau Cymdogaeth – mae ein prif wariant ar briffyrdd a rheoli asedau

Mae ail gyfnod rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Granf Llywodraeth Cymru – Band B – i ddechrau yn 2019/20. Cyfanswm cost Band B yn Nhorfaen yw £46 miliwn gyda gofyniad ariannu gan y Cyngor o £7.3 miliwn dros y rhaglen saith mlynedd (£2.8 miliwn ar gyfer 2019/20 hyd at 2021/22). Mae ein cynigion ar gyfer Band B i'w cymeradwyo gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru ac felly nid yw cyllid allanol sy'n gysylltiedig a'r cynlluniau wedi ei gynnwys uchod. Fodd bynnag, mae ein hadnoddau cyllid cyfatebol wedi ei gynnwys ar y llinell "i'w ddyrannu".

# Rhan 6 – Cysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol

Mae Deddf LlCD 2015 yn un o lawer o ddarnau o ddeddfrwriaeth y mae gofyn i ni gydymffurfio â nhw fel awdurdod lleol. Mae'n bwysig nad ydym yn gweithredu ein dyletswydd i ddefnyddio'r egwyddor dabtlygiad cynaliadwy ar ei ben ei hun ond ein bod yn ystyried sut mae hyn yn ffitio gyda dyletswyddau deddfwriaethol eraill hefyd.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae gofyn i ni dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd ac adnoddiad monitro blynyddol ar y camau rydym wedi eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd cyfraddoldeb sector cyhoeddus a'n hamcanion cyfraddoldeb ein hunain. Yn ein hadroddiad blynyddol rydym yn dangos ein cyfraniad positif tuag at gymdeithas decach trwy gyflenwi gwasanaethau wrth roddi ystyriaeth ddyledus i ddileu gwahaniaethu. Cyhoeddir ein hadroddiad blynyddol ar y 1af Ebrill bob blwyddyn, gan ganolbwyntio ar ein 10 amcan cydraddoldeb strategol ac ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar y camau gweithredu sydd dan bob un oonynt. Mae ein diweddariadau diweddaraf yn cynnwys:

**Ymgysylltu**

I gefnogi ein gweithgareddau ymgysylltu yn Nhorfaen, mae'r gwasanaethau cyhoeddus wedi dod at ei gilydd mewn Grŵp Ymgysylltu Strategol (SEG). Pwrpas y SEG yw cefnogi gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Trfaen (BGC), i wella canlyniadau i drigolion Torfaen trwy sicrhau ymgysylltiad effeithiol dinasyddion wrth gymryd penderfyniadau. Mae SEG Torfaen yn parhau i gefnogi gwaith y BGC trwy sicrhau bod ymgysylltiad dinsayddion yn cael ei gydgysylltu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Gan ddefnyddio'r dull hwn, mae'r grŵp wedi cefnogi trigolion i leisio barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau lleol a rhanbarthol.

Cynhaliwyd prosiectau ac ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn. Roedd ffocws ar 'Drosedd Casineb' yn ystod 2017/18 yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Asesiad/Cynllun Lles, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu gyda chymunedau gyda Nodweddion Gwarchodedig – a nodir yn y Cynllun Lles BGC drwy'r amcan cydlyniant cymunedol.

**Asesiadau effaith ar gydraddoldeb**

Rhaid cwblhau ein Templed Asesiad Lles ac Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod ein penderfyniadau yn cydymffurfio gyda gofynion Deddf LlCD 2015. Mae templed yr asesiad hefyd yn ein helpu i ystyried sut rydym yn cymryd penderfyniadau mewn perthynas â nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth – Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2010, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 ac Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Gwahaniaethau mewn cyflog**

Rydym wedi ymgynghori ar a gweithredu strwythur cyflog a graddau diwygiedig ym mis Ebrill 2010 fel y nodwyd yn y Cytundeb Statws Sengl a drafodwyd gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol. Egwyddorion y cytundeb oedd cyflwyno strwythur cyflog a graddau anwahaniaethol, agored ac amodau gwaith sy'n cysymffurfio'n llawn gyda'r Ddeddf Cyflog Cyfartal ac unrhyw ddeddfwriaeth anwahaniaethol arall.

**Hyfforddi staff**

Rydym yn cynnig cyfle i staff a rheolwyr ymgymryd â sesiynau hyfforddi ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â chydraddoldeb. Mae ein cyrsiau yn cynnwys ar hyn o bryd: creu gweithle cynhwysol i ferched a dynion, datblygu meddylfryd cydnerth, dileu gwahaniaethu yn ein cyfundren, gweithio gyda chwsmeriaid a chydweithwyr anabl, delio gyda bwlio ac

aflonyddiad yn y gwaith ac ymyraethau effeithiol i ddileu bwlio ac aflonyddiad.

**Gwybodaeth am y gweithlu**

Rydym yn casglu data bob mis ar wybodaeth cydraddoldeb yn ôl maes gwasanaeth. Mae ein hadroddiad blynyddol yn manylu dadansoddiad o ganrannau ar gyfer oedran, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol, crefydd a rhyw a thueddfryd rhywiol yn ôl maes gwasanaeth. Mae'r data hefyd yn adrodd ar y canran o ddynion a merched mewn swyddi rhan-amser a llawn-amser.

Mae rhagor o wybodaeth i'w weld yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf.

## YR IAITH GYMRAEG

Mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio gyda Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhoi'r hawl i drigolion a staff ddefnyddio'r iaith yn rhydd yn eu bywydau bob dydd

Fel rhan o'n hymrwymiadau dan Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg bum mlynedd sy'n dangos sut byddwn ni, gyda phartneriaiad allweddol., yn hyrwyddo an hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg yn y fwrdeistref. Mae'r strategaeth, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2016, yn nodi ein cyfeiriad strategol yn ystod 2017 – 2022, i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Nhorfean a chefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae nifer o ddyletswyddau deddfwriaethol eraill y mae'r strategaeth yn adeiladu arnynt, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – un o'r saith amcan lles yn y Ddeddf yw "Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu". Nod y Strategeth Iaith Gymraeg yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol siaradwyr Cymraeg trwy weithio gyda phrtneriaid yn y maes.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – Mae'r Ddeddf yn gofyn i ni roddi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant, iaith a chred unigolion sy'n derbyn ein gofal. Mae hyn wedi ei integreiddio mewn cynllunio gwasanaeth a gwneud "Cynnig Actif" i bawb, gan ganiatáu i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu yn eu dewis iaith heb orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg.
- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013)** – Mae'r Ddeddf yn rhoi gofyniad statudol i ni i baratoi a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn amlinellu canlyniadau a thargedau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg Gymraeg ei chyfrwng. Cafodd ein WESP ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018. Mae'r Strategaeth yn cydnabod cyfraniad anferth ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg a chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu Gymraes. Bydd ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hollbwysig ar gyfer llunio proffil ieithyddol Torfaen yn y dyfodol.

Byddwn yn paratoi Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd iaith Gymraeg yn manylu ein cynnydd o ran cydymffurfio gyda Safonau'r Iaith Gymraeg a'i gyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol.

## BIOAMRYWIAETH

Mae cyfraniad Cymru tuag at ddatblygiad cynaliadwy, twf gwyrdd ac egwyddorion y Dull Ecosystem wedi eu cynnwys yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf LlCD 2015 a Deddfau Amgylchedd (Cymru) a Chynllunio (Cymru). Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6, Rhan 1) ddyletswyddau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau cryfach (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd A6 yn gofyn i ni gynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.


I gydymffurfio gyda'r ddyletswydd A6 mae gofyn i ni ddechrau ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn y cyfnodau cynnar ac wrth gynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, ynghyd â busnes beunyddiol y gyfundrefn. I gydymffurfio gyda'r ddyletswydd A6, rhaid i ni baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau gan nodi sut rydym yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch.

Rydym yn y broses o ymateb i'r ddeddfwriaeth hon. Rydym wedi paratoi cynllun drafft a gafodd ei graffu gan ein Pwyllgor Busnes ac Adnoddau Traws-ffiniol ym mis Chwefror 2019, gan roddi sylwadau ac argymhellion ar sut gellid cryfhau'r adroddiad a'i weithrediad. Cyhoeddir ein Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau terfynol yn ddiweddarach yn 2019 a bydd y cynllun gweithredu ynddo yn sylfaen ar gyfer ein hymateb yn y dyfodol i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

*Mae'r darn isod yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Cymru yn cyflawni ei ymrwymiadau trwy fyw o fewn ei foddion amgylcheddol.*

**I'n helpu i wireddu'r amcanion, rhaid inni gynllunio sut ydym yn defnyddio'n tir a sut bydd ein dinasoedd, trefi a chymunedau'n newid dros amser**

- Gyda **system sy'n seiliedig ar gynllun**, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall beth sydd ei angen ar eu cymunedau. Bydd dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried y 'cynllun llesiant lleol' a gyhoeddir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Trwy ymwneud yn fwy yn y **cam cyn ymgeisio**, bydd cymunedau yn cael cyfrannu'n fuan yn y broses gynllunio i ddylanwadu ar gynigion datblygu.
- Bydd **Cynlluniau Datblygu Strategol** yn canolbwyntio ar feysydd sy'n bwysicach na'r lleol. Yr allwedd yw ymdrin â datblygu sydd o natur strategol.
- Bydd y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran defnyddio tir.




**Rhaid cysylltu'r ffordd rydym yn defnyddio'n tir â'r ffordd rydym yn rheoli'n hadnoddau naturiol.**

- **Rheoli adnoddau naturiol** - yn dylanwadu ar flaenoriaethau a chyfleoedd trwy dystiolaeth ar sail ardal.
- **Sail tystiolaeth** sy'n fwy cyson a phroactif ac wedi'i blaenoriaethu, ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol i gyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a lleol
- Cyfleoedd wedi'u blaenoriaethu i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau a sicrhau'r **datblygiad iawn** i gefnogi cynllunio positif.

**Mae ein hadnoddau naturiol yn hanfodol inni allu sicrhau llesiant Cymru gynaliadwy:**

- Adlewyrchir cydnerthedd a'r ffordd y defnyddir ein hadnoddau naturiol yn y saith **amcan** llesiant
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o'r 44 o **gyrff cyhoeddus** sy'n dod o dan y ddyletswydd datblygu cynaliadwy ac sy'n aelod o **Banel Cynghori** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** fydd yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer ein hadnoddau naturiol gan ddylanwadu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt asesu llesiant.
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod statudol o bob **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)**, gan gefnogi partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus i wneud y gorau o'u cyfraniad at yr amcanion llesiant.
- Bydd **datganiadau ardal** yn nodi anghenion, cyfleoedd a heriau lleol o fewn cyd-destun cynlluniau rheoli adnoddau lleol a llesiant lleol.

Wrth baratoi'r cynllun drafft, rydym wedi cymryd i ystyriaeth ddeddfwriaeth a pholisïau allweddol, egwyddor y rhain yw Deddf LlCD sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth, ecosystemau deinamig a lles. Bydd ein Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau yn allweddol i gyflawni amcan cyffredinol LlCD o "Hyrwyddo'r egwyddor datblygiad cynaliadwy, yn benodol gweithredu fel ceidwaid gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i gymryd mwy o ystyriaeth o effaith hirdymor y pethau maent yn eu gwneud."

## Rhan 7 – Adrodd ar ein Cynnydd

Trwy gydol y flwyddyn byddwn yn gwerthuso ein perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella a lles i roddi arfarniad gonest o'r cynnydd. Byddwn yn dadansoddi'r manteision a gyflenwir gan ein gweithgareddau, a chan ddefnyddio ein fframwaith hunan-werthuso a'r swyddogaeth trosolwg a chraffu, byddwn yn profi os dylid cyfeirio adnoddau tuag at weithgareddau eraill y flwyddyn nesaf.

Yn unol â'n gofynion statudol, byddwn yn cyhoeddi un adroddiad lles a pherfformiad blynuyddol yn nodi'r cynnydd yn erbyn y ddogfen hon.

Bydd fersiwn llawn o'r adroddiad ar gael i'w weld ar ein gwefan ar ôl 31 Hydref 2020.

**ATODIAD 1**

## BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLA 2019/20 …

**… TORFAEN LÂN A GWYRDD**

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei chysylltu o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion poblogaethau lleol nawr ac i'r dyfodol**
- **Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd**

### Cyfrannu at weledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen …

**Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono**

### A, chyfrannu tuag at amcanion blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol 3 2020 …

| Ein hamcanion 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • Cadw'r fwrdeistref yn lân a rhydd rhag sbwriel<br>• Cynnal mannau agored ar dir ym meddiant y cyngor i safon dderbyniol a gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a phartneriaid lleol i sicrhau hyn<br>• Gweithio mewn modd cynaliadwy i sicrhau bod ein hamgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>• Gofyn i drigolion am eu barn ar gynnal mannau agored yn eu cymunedau<br>• Erlyn y sawl a ddelir yn cyflawni troseddau amgylcheddol lle bo modd |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • Trigolion i weithio i wella golwg eu cymuned leol |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i drigolion …** | • Beidio â thaflu sbwriel , tipio anghyfreithlon neu adael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus.<br>Mae pob punt sydd angen ei gwario ar ymddygiad difeddwl a gwrthgymdeithasol fel hyn yn bunt yn llai i'w gwario ar wella'r ardal<br>• Cynyddu ailgylchu, lleihau gwastraff ac adrodd am droseddau amgylcheddol |

**Y gweithgareddau a gynlluniwyd i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2019/20 …**

| Ein gweithgareddau… | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Datblygu fferm solar ar hen safle tirlenwi Tŷ Coch yn darparu hyd at 3.85MW o ynni solar ffoto-foltaig (PV) i gynhyrchu incwm cynaliadwy a lleihau allyriad carbon.** | Bydd y datblygiad arfaethedig 3.85MW yn Nhŷ Coch yn cynhyrchu rhyw 3.75 Gwh o ynni adnewyddadwy y flwyddyn a gwrthbwyso rhyw 1,312.4 tunnell o $CO_2$ o'i gymharu gyda thrydan a gynhyrchir yn gonfensiynol a dod ag incwm o ryw £50k y flwyddyn<br><br>Mae'r cynhyrchu yn cyfateb i ddefnydd 1,000 o aelwydydd y flwyddyn yn Nhorfaen, a bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r targed yng Nghymru o gynhyrchu 70% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy lleol erbyn 2030. |
| **Byddwn yn paratoi Polisi Mannau Agored.** | Bydd ein Polisi Mannau Agored yn ffurfio rhan o'n Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn cefnogi ein polisi cynllunio at y dyfodol a rhoi fframwaith strategol i ni ar gyfer datblygiad ac amddiffyniad mannau agored gwyrdd yn y dyfodol. |
| **Byddwn yn ail-fodelu sut rydym yn cyflenwi'r gwasanaeth gwastraff trwy:**<br>▪ **Ddefnyddio gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth gwastraff, a**<br>▪ **Lleihau defnydd o staff asiantaeth mewn gweithrediadau gwastraff.** | Trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a gyfeirir gan ein Tîm Cyflogadwyedd medrwn roddi profiad gwaith iddynt a lleihau'r angen am staff asiantaeth.<br><br>Bydd lleihau defnydd o staff asiantaeth a symud at gyflogi mwy o staff yn uniongyrchol yn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd. |
| **Byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil / Gorfodi Amgylcheddol yn Nhorfaen.** | Ystyried yn llawn fodel achos busnes ar gyfer cyd-orfodi sifil/amgylcheddol a chytuno ar y model mwyaf addas. |
| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion yn didoli eu gwastraff gweddillol yn y Ganolfan Gwastraff Tŷ (HWRC).** | Bydd ein polisi newydd yn golygu y bydd angen mynd ag unrhyw sachau o wastraff cymysg sy'n mynd i'r Ganolfan Gwastarff Tŷ wedi eu bwriadu ar gyfer y sgip gwastraff an-ailgylchadwy i ardal ddidoli benodol. Mae didoli gwastraff yn lleihau faint o ddeunydd ailgylchadwy sy'n mynd i gael ei waredu. |
| **Datblygu a chadarnhau Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.** | Bydd ein strategaeth newydd yn pennu fframwaith ar gyfer dull mwy cysylltiedig ar gyfer gweithio tuag at leihau sbwriel a syniad gwell gan y cyhoedd o lendid yn yr ardal. |

**Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2019/20 …**

| Ein mesurau perfformiad ar gyfer y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad teithio | Ein perfformiad 2017/18 | Targed 2018/19 | Perfformiad 2018/19 hyd yma | Targed 2019/20 | targed CC3 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % ( a nifer) achosion tipio anghyfreithlon a adroddwyd wedi eu clirio o fewn 5 diwrnod | Uwch yn well | 98.55%<br>681.00 | 97% | 99.03% | 98% | 98% |
| % cwynion glendid sy'n cael ymateb o fewn safonau deddf cymdogaethau glân<br>i) gwydr wedi torri;<br>ii) baw cŵn ar wynebau caled<br>iii) ceisiadau gordyfiant/rhwystro | Uwch yn well | i. 50.77%<br>ii. 55.93%<br>iii. N/A | i. tbc<br>ii. tbc<br>iii. tbc | i. 86.67%<br>ii. 93.64%<br>iii. 28.48% | i. 86%<br>ii. 86%<br>iii. 86% | i) 86%<br>ii) 86%<br>iii) 86% |
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff NSfW (2013/14) | Uwch yn well | 31.34%<br>(Arolwg trigolion Torfaen) | 62% | 31.14%<br>(arolwg trigolion Torfaen) | I'w gytuno. Rhaid cysylltu gydag arolwg trigolion NSfW nas defnyddiwyd gynt | 66% |
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn cael ei chynnal yn dda NSfW (2013/14) | Uwch yn well | 39.44%<br>(arolwg trigolion Torfaen) | 73% | 39.04%<br>(arolwg trigolion Torfaen) | I'w gytuno. Rhaid cysylltu gydag arolwg trigolion NSfW nas defnyddiwyd gynt | 77% |
| Arwynebedd tir dan reolaeth bioamrywiaeth gadarnhaol | Uwch yn well | 1,450 ha | 1500 ha | 1470 ha | 1,500 ha | 1,500 ha |
| % o wastraff yr awdurdod lleol sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio | Uwch yn well | 60.51% | 62% | 60.96% | 64% | 64% |
| Tunelli o wastraff a yrrir i'w waredu | Is yn well | 17,737 tunnell | 17,000 tunnell | 13,914 tunnell | 2,500 tunnell | 16,500 Tunnell |
| Cyfranogiad trigolion mewn ailgylchu –<br>a) gwastraff bwyd, a<br>b) gwastraff sych | Uwch yn well | 61.29%<br>95.49% | 58%<br>86% | 61.10%<br>96.15% | 58%<br>86% | 58%<br>87% |
| % achosion tipio anghyfreithlon a arweiniodd at gamau gorfodi | Uwch yn well | 6.22% | 5% | 7.23% | 6% | 7% |

**ATODIAD 2**

## EIN BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLA 2019/20 …

## … CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen -

- **Darparu plant a phobl ifanc gyda'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd**
- **Gwella sgiliau lleol trwy gynlllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen -

**Mae pob person ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth ein Cynllun Corfforaethol 3 2020 …

| **Ein nodau 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon …** | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn ...** | • Gweithio gydag ysgolion a staff dysgu i godi cyrhaeddiad ac annog holl bobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16<br>• Gweithio gyda phob ysgol sy'n cael eu sgorio'n wyrdd neu'n felyn yn y system genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion<br>• Sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd, gan gynnwys 'plant sy'n derbyn gofal', rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol neu mewn perygl o fod angen derbyn gofal<br>• Gweithio i gau'r bylchau rhwn y rhywiau a chyrhaeddiad cymdeithasol-economaidd<br>• Gweithio i sicrhau bod gan holl ddysgwyr sgiliau llythrennedd a rhifedd effeithiol<br>• Cynllunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd a gwell sy'n addas i'r pwrpas yn y 21ain ganrif<br>• Cefnogi ac annog ein pobl ifanc i'w rhwystro rhag mynd yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)<br>• Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ein pobl yn datblygu'n ddinasyddion llawn gyda'r cyfle gorau posibl yn y farchnad swyddi bresennol<br>• Cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar, adnabod anghenion dysgwyr ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod holl blant a'u rhieni/gofalwyr yn cacel eu cefnogi i ddysgu a chyflawni |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • Cyrff llywodraethol i sicrhau bod ganddynt y capasiti i gynnig her a chymorth i'w hysgolion a chodi dyheadau a llwyddiannau |

| Ein nodau 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i rieni a gofalwyr … | • Fod â dyheadau uchel ar gyfer eu plant a chyfrannu'n weithredol tuag at, ac ymgysylltu gydag addysg eu plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn barod i ddysgu a gwneud cyfraniad positif |

**Ein gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2019/20 …**

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir |
|---|---|
| **Byddwn yn arolygu pwrpas a chynllun busnes yn y dyfodol ar gyfer Hyfforddiant Torfaen yn wyneb penderfyniadau contract Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru'n Gweithio a Dysgu Seiliedig ar Waith.** | Bydd Hyfforddiant Torfaen yn dod yn gynaliadwy, gan gyflenwi cyfleoedd hyfforddi gwell i bobl yn Nhorfaen. |
| **Byddwn yn rheoli'r newid o'r ddarpariaeth bresennol i'r coleg 6ed dosbarth newydd, gan gynnwys trefniadau cynlluniau pontio ôl-16 a phrosesau ar gyfer disgyblion AAY sy'n symud i'r coleg newydd.** | Bydd yr effaith ar symudiad Blwyddyn 11 i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ar gyfer 2019 a 2020 yn cael ei rheoli a byddwn yn sicrhau bod holl ddisgyblion AAY yn cael y cymorth angenrheidiol i sicrhau pontio llyfn. |
| **Byddwn yn rheoli'r newidiadau sy'n deillio o raglen Cymru'n Gweithio.** | Rheoli'r effaith ar brosesau Fframwaith Cynnydd Ymgysylltiad Ieuenctid ar gyfer atgyfeiriadau Rheng 2 pobl ifanc NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant 16-18 oed. |
| **Byddwn yn ehangu'r rhaglenni ymyrraeth cymorth teulu yn y blynyddoedd cynnar, rhianta a thimau cymorth iaith gynnar.** | I fod ar gael ledled Torfaen i leihau ymyraethau statudol megis Plant sy'n Derbyn Gofal, a meithrin gwytnwch teuluol yn enwedig o ran lliniaru Profiadau Andywol mewn Plentyndod. |
| **Byddwn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ym mhob lleoliad gofal plant yn Nhorfaen.** | I sicrhau bod holl blant yn cael y cychwyn gorau a chyflawni eu cerrig milltir datblygiadol. |
| **Byddwn yn sicrhau bod trefniadau amddiffyn yn gynhwysfawr ac yn addas i'r pwrpas trwy weithredu "Fy Mhryderon", pecyn arlein newydd i ysgolion.** | Byddai creu databas diogel, byw a rennir yn datblygu ymhellach y gwaith o fonitro Cyfarfodydd Strategaeth Broffesiynol (PSM). Bydd gwell dadansoddiad o ddata amddiffyn yn sicrhau cydymffurfio mewn perthynas ag amddiffyn a gwella polisi, gweithdrefnau, hyfforddiant a systemau. |
| **Byddwn yn datblygu ac adeiladu capasiti mewn ysgolion i baratoi ar gyfer Cyfnod Trawsnewid AAY ac ymgymryd ag Arolwg Parodrwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAY) yn rhanbarthol.** | Gan weithio ar y cyd â'r arweinydd trawsnewid AAY a Chonsortiwm De-ddwyrain Cymru (SEWC), caiff polisïau a gweithdrefnau eu datblygu yn unol â'r Cod AAY newydd a'r Bil AAY i symud o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) i Gynlluniau Datblygu Personol (CDP). |
| **Byddwn yn ymgymryd âr broses ymgynghori (a symud ymlaen yn unol â hynny) ar gyfer y cynnig i ehangu Ysgol Gyfun Gwynllyw, gan ymestyn yr amrediad oedran o 11-18 i 3-18.** | Ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn agor ym mis Medi 2021.<br><br>Mae gan yr ysgol arfaethedig gyllideb gyfalaf o £6 miliwn, wedi ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan gefnogi'n sylfaenol nod Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

**Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2019/20 …**

| ein mesurau perfformiad ar gyfer y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad teithio | Perfformiad 2017/18 | Targed 2018/19 | Perfformiad 2018/19 hyd yma | Ein targed 2019/20 | Targed CC£ 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % disgyblion yn cael trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg<br>Holl ddisgyblion<br>Disgyblion nad ydynt yn cael pryd ysgol am ddim<br>Disgyblion pryd ysgol am ddim<br>Bechgyn<br>Merched | Uwch yn well | 51.3%<br>54.9%<br>29.9%<br>46.1%<br>56.4% | 59.3%<br>62.9%<br>38.5%<br>-<br>- | 48.9%<br>54.5%<br>24.1%<br>43%<br>54.8% | Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B | Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B<br>Dd/B |
| % disgyblion yn cael trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg | Uwch yn well | 11.34% | 13.7% | 10% | Dd/B | Dd/B |
| System Categoreiddio ysgolion – nifer yr ysgolion mewn Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch (Canran) | Uwch yn well | 68.75% gwyrdd neu felyn<br>(22 ysgol)<br>15.63%<br>(5 ysgol) | 91% (30) Cynradd<br>86% (6) uwchradd | 75% gwyrdd neu felyn (23 Cynradd/1 uwchradd)<br>6% coch (1 Cynradd/1 uwchrdad) | 90% Gwyrdd neu felyn<br>0% coch | 90% Gwyrdd neu felyn<br>0% coch |
| % ysgolion o leiaf ar ris 2 (B) ar gyfer Categoreiddio Cenedlaethol Arweinyddiaeth<br>Ysgolion cynradd<br>Ysgolion uwchradd | Uwch yn well | 81%<br>(21 allan o 26)<br>0%<br>(0 allan o 6) | 82%<br>86% | 84.62%<br>(22 allan o 26)<br>33.33%<br>(2 allan o 6) | 92%<br>(23 allan o 25)<br>83%<br>(5 allan o 6) | 88%<br>(23 allan o 26)<br>83%<br>(5 allan o 6) |
| % o blant [yn derbyn gofal a chymorth] yn cyflawni dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | Uwch yn well | 9.09% | 20% | 17.39% | Dd/B oherwydd carfannau'n newid | Dd/B oherwydd carfannau'n newid |
| Buddsoddiad mewn ysgolion a chanolfan chweched dosbarth fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | Uwch yn well | £9.4 miliwn | £34.4 miliwn | £17 miliwn | £32 miliwn | £86 miliwn<br>(yn gronnus i fis Mawrth 2019) |

| ein mesurau perfformiad ar gyfer y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad teithio | Perfformiad 2017/18 | Targed 2018/19 | Perfformiad 2018/19 hyd yma | Ein targed 2019/20 | Targed CC£ 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran myfyrwyr yn cyflawni trothwy Lefel 3 (a'r nifer) | Uwch yn well | 95.1% | Heb ei bennu eto | 92.3% | Heb ei bennu eto | 97% |
| Canran pobl ifanc (carfan Blwyddyn 11) adroddwyd fel rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant | Is yn well | 1.2% | 1.5% | 1.1% | 1.5% | 1.5% |
| % disgyblion yn cael CSI yn L4,CA2<br>% disgyblion yn cael Saesneg yn L4, CA2<br>% disgyblion yn cael Mathemateg yn L4, CA2<br>% disgyblion yn cael Gwyddoniaeth yn L4, CA2<br><br>% disgyblion yn cael CSI yn L5, CA3<br>% disgyblion yn cael Saesneg yn L5, CA3<br>% disgyblion yn cael Mathemateg yn L5, CA3<br>% disgyblion yn cael Gwyddoniaeth yn L5, CA3 | Uwch yn well | 89.49%<br>91.98%<br>91.52%<br>93.8%<br><br>88.97%<br>90.72%<br>92.36%<br>95.16% | 91.4%<br>93%<br>92.9%<br>95.2%<br><br>91.6%<br>93.2%<br>94.2%<br>95.9% | 91.3%<br>92.4%<br>92.9%<br>94.6%<br><br>88.3%<br>91.3%<br>93%<br>94.9% | 89.4%<br>91.1%<br>91.7%<br>93.3%<br><br>90.7%<br>91.2%<br>93.7%<br>94.4% | 85.3%<br>87.5%<br>88.1%<br>89.4%<br><br>90.7%<br>93.7%<br>92.5%<br>95.7% |

**ATODIAD 3**

## EIN BLAENORIAETH CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 A'N HAMCAN LLES A GWELLA 2019/20 …

## … CYMORTH I DRIGOLION MWYAF AGORED I NIWED TORFAEN

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Cefnogi ffordd o fyw iach a galluogi i bobl heneiddio'n dda**
- **Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen …

**Cymuned iachach lle mae'r bobl mwyaf agored i niwed yn cael eu cynorthwyo i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i rwystro dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb**

### A, chyfrannu i'n nodau blaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol 3 …

| Ein nodau 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • Cefnogi'r rhai sydd ei angen fwyaf, gan roddi cymorth diogel, priodol ac urddasol i'n trigolion mwyaf agored i niwed, ond hefyd yn hybu annibyniaeth lle bynnag y bo modd<br>• Gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i helpu i wella bywydau'r rhai mwyfa agored i niewd<br>• Adnabod pobl sy'n agored i niwed cyn gynted ag y bo modd er mwyn medru ymyrryd yn gynnar i'w cynorthwyo a lle'n bosibl, rhwystro eu problemau rhag gwaethygu. Rydym yn gwerthfawrogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd, a helpu'r Cyngor i arbed arian yn y tymor hir.<br>• Gweithio i drechu tlodi, yn enwedig tlodi plant, a lleihau anghydraddoldeb<br>• Cefnogi rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel i wella eu sgiliau ac osgoi canlyniadau iechyd a chymdeithasol tlodi. |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • Y trydydd sector a chymunedau i helpu pobl i ddod yn gydnerth yn ariannol ac yn gymdeithasol, gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth iawn i ddod yn fwy annibynnol. Byddwn yn cryfhau ein cymunedau, fel mannau lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd ac yn helpu ei gilydd mewn cyfnodau o angen.<br>• Y gymuned i ddelio gyda materion iechyd penodol ac annog ffordd o fyw iach a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth sy'n galluogi i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus<br>• Gofalwyr di-dâl, fel cydnabyddiaeth o'r cyfraniad anferth maent yn ei wneud i gymdeithas. Byddwn hefyd yn ceisio deall eu hanghenion yn well |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl …** | • I rieni a gfofalwyr ofalu am eu plant a'u cadw'n ddiogel rhag niwed<br>• Pobl i ofalu am ei gilydd a chadw llygad ar y bobl mewn mwyaf o angen |

**Ein gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio i gyflawni ein hamcanion gwella a lles yn 2019/20 …**

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Gofal Cartrf ac wrth wneud hynny byddwn yn:**<br>▪ **Ystyried ymarferoldeb cynyddu ein darpariaeth fewnol 20% trwy ganolbwyntio ar alluogi byrdymor a rheoli dementia a gofal cymhleth hirdymor,**<br>▪ **Gweithio gyda chydweithwyr comisiynu i sgopio effaith ariannol gweithrediad Siarter Gofal Moesegol Unsain, a**<br>▪ **Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu manyleb tendr seiliedig ar ardal.** | ▪ Bydd cynnydd yn y farchnad fewnol yn lleihau ein dibyniaeth ar ddarparwyr allanol a symudiadau yn y farchnad gofal cartref yn lleol. Byddwn yn gallu delio'n well gyda heriau galw cynyddol sy'n gysylltiedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a chleientiaid gydag anghenion mwy cymhleth.<br>▪ Byddwn yn gostwng nifer y pecynnau gofal sydd eu hangen ar ddiwedd ymyraethau galluogi, lleihau rhestri aros i gleientiaid sy'n aros am becynnau gofal, sy'n arwain at oedi trosglwyddiad gofal a/neu bwysau ar ofalwyr anffurfiol. |
| **Byddwn yn arolygu ein darpariaeth hirdymor a byrdymor o welyau i sicrhau effeithlonrwydd, hyblygrwydd ac rydym yn cefnogi cleientiaid i gynnal eu hannibyniaeth.** | Bydd ateb yn cael ei ddatblygu a'i gytuno sy'n darparu atebion priodol i unigolion sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau positif a chynhwysiant cymdeithasol<br><br>Bydd ein cynnig yn hyblyg, yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn gwneud gwell defnydd o stoc dai amgen |
| **Byddwn yn ail-ddiffinio ac ail-ddylunio'r cyfleoedd dydd rydym yn eu cynnig gyda'n partneriaid allweddol. Caiff y ddarpariaeth ei hail-ddylunio gan ddefnyddio egwyddorion allweddol: canolbwyntio ar y person, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd; ymgysylltiad (llais a rheolaeth); cysylltu ag eraill a'u cymunedau; tystiolaeth gref a mesur effaith, meddwl yn y tymor hir; partneriaeth a rhwystro a chymesuredd.** | Bydd ein darpariaeth yn symud i fodel lle;<br>▪ Mae popeth yn dechrau gyda'r person ac nid lleoliad gwasanaeth neu wagle.<br>▪ Breuddwydion a dyheadau cleient yn cael eu dilyn gan y gwasanaeth, gan arwain at ddisgwyliadau uwch yn y pen draw a chynnydd mewn canlyniadau bywyd positif.<br>▪ Mwy o bobl yn symud i ffrwdd o'r gwasanaeth.<br>▪ Mae'r model yn gallu diwallu anghenion pobl gydag anghenion cymhleth. |
| **Byddwn yn arolygu prosesau drws ffrynt Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau bod cyswllt cyntaf/atgyfeiriadau yn cael eu trin yn effeithiol ac effeithlon ac yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau priodol.** | Bydd ein drws ffrynt yn cael ei ail-ddylunio i sicrhau ein bod yn medru delio gyda materion rheoli galw a darparu mynediad priodol at y gwasanaethau sydd eu hangen gan blant a'u teuluoedd. |
| **Byddwn yn datblygu un pwynt mynediad ar gyfer Iechyd Meddwl Sylfaenol wedi ei ailinio gyda'n swyddogaethau Teuluoedd yn Gyntaf** | Byddwn yn gwneud hyn er mwyn lleihau'r pwysau ar yr angen am wasanaethau gofal cymdeithasol wrth ddelio gyda lles emosiynol.<br><br>Sicrhau bod gwasanaethau iechyd priodol yn cael eu defnyddio'n amserol, gan leihau achosion lle mae angen yn gwaethygu fel y mae'n ymwneud â lles emosiynol ac yn y tymor hirach yr angen am ddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslanciau (CAMHS) trwy adnabod a delio gyda'r angen yn gynharach / rhwystro |
| **Byddwn yn arolygu'r trefniadau ar gyfer comisiynu asesiadau gyda golwg ar gaffael contract addas gydag un darparwr.** | Bydd un contract gydag un darparwr yn ein galluogi i: gynyddu lefel atebolrwydd a lleihau/rheoli'n effeithiol wariant ariannol. |

## Sut byddwn yn mesur ein cynnydd yn 2019/20 …

| ein mesurau perfformiad ar gyfer y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad teithio | Perfformiad 2017/18 | Ein targed 2018/19 | Perfformiad 2018/19 hyd yma | Ein targed 2019/20 | Ein targed CC3 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi:<br><br>a. Ac sydd â phecyn gofal llai 6 mis yn ddiweddarach | Uwch yn well | 46.03% | 10% | 82.09% | 50% | 50% |
| b. sydd heb becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | | 79.24% | 30% | 79.10% | 80% | 80% |
| % o oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu a'r gwasanaeth am 6 mis | Uwch yn well | 90.74% | Heb ei bennu ar hyn o bryd | 90.89% | 90% | 90% |
| Cyfran oedi trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd | Is yn well | 6.32 | 5 | 2.04 | 5 | 5 |
| % trigolion Torfaen lle bu modd osgoi derbyn i ysbyty ar ôl atgyfeiriad 'Meddygol Cyflym' i Eiddilwch gan y MT | Uwch yn well | 98%<br><br>(Enbrill 2017 – Mawrth 2018) | Heb ei bennu | 95.65% | 96% | 96% |
| % o bobl sy'n fodlon gyda'r gofal a'r cymorth a gafwyd [gwasanaethau oedolion] | Uwch yn well | 83.04% | 75% | 84.19% | 85% | 85% |
| % o blant a gefnogwyd i aros gyda'u teuluoedd | Uwch yn well | 56.84% | 51% | 51% | 68% | 58% |
| % o blant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o'r lleoliad gofal yn ystod y flwyddyn<br>(D.S. Nid yw'r mesur yn cynnwys plant sy'n dychwelyd adref ond nad ydynt yn cael eu rhyddhau o ofal) | Uwch yn well | 11.82% | 13% | 9% | 12% | 12% |
| Amser ar gyfartaledd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Is yn well | 187.46 diwrnod (rhyw 6 mis) | 230 diwrnod | 191 Diwrnod | 185 diwrnod | 185 diwrnod |
| Ail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Is yn well | 5.8% | 9% | 2.3% | 5.4% | 5.5% |

| ein mesurau perfformiad ar gyfer y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad teithio | Perfformiad 2017/18 | Ein targed 2018/19 | Perfformiad 2018/19 hyd yma | Ein targed 2019/20 | Ein targed CC3 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o ofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu | Uwch yn well | 55.17% | 95% | 65.12% | 75% | 75% (2016/17) |
| % (a nifer) teuluoedd a gefnogir gan y Rhaglen Cymorth Teuluoedd sydd wedi gweld gwelliant y gellir ei ddangos mewn o leiaf 3 canlyniad | Uwch yn well | 85.6%<br>126 | 75% | 100% | 95% | 95% (2016/17) |
| % o achosion lle rhwystrwyd digartrefedd (a66) | Uwch yn well | 56.44 | 50% | 52.8% | 55% | 60% |
| % o bobl lle mae dyletswydd a75 lle mae'r ddyletswydd wedi ei chyflawni'n bositif | Uwch yn well | 71.79 | 68% | 88.24% | 65% | 70% |
| % o 'Bobl a Gefnogir' yn cael y canlyniadau canlynol<br><br>SP1: teimlo'n ddiogel<br>SP6: Rheoli arian<br>SP9: Corfforol iach<br>SP10: Meddyliol Iach | Uwch yn well | 55.89<br>53.26<br>54.54<br>52.07 | 62%<br>58%<br>59%<br>54% | 93.94%<br>91.9%<br>90.29%<br>88.38% | 62%<br>58%<br>59%<br>54% | 62%<br>58%<br>59%<br>54% |
| % o oedolion (16+) yn cymryd rhan mewn cymorth cyflogadwyedd sy'n symud ymlaen i waith | Uwch yn well | 34.94% | 18% | 20.04% | 18% | 18% |

**Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Mawrth 2019**

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud sylwadau ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01495 766298
Ebost: corporate.plan@torfaen.gov.uk